

W  
891.  
6612  
OWE

No. 27900

Class W891.661

**BOROUGH**



**OF BANGOR**

# Public Library Lending Department

OPEN DAILY

MONDAY, TUESDAY, THURSDAY— 11 a.m. to 1 p.m.  
2 p.m. to 6 p.m.

WEDNESDAY—Closed all day.

FRIDAY, SATURDAY—11 a.m. to 1 p.m., 2 p.m. to 7.30

## RULES

- 1 All Books borrowed must be returned to the Library within **14 DAYS**. A fine of **ONE PENNY** per Week beyond that period will be strictly enforced.
- 2 A Book can only be renewed for a further period of 14 days should there be no immediate demand for it.
- 3 Borrowers must take reasonable care of Books lent to them. They are particularly requested to keep them clean, to protect them from rain in wet weather, and not to mark or turn down the leaves.
- 4 Borrowers will be held responsible for any Books issued to them which may be lost or damaged. Any damage done to a Book must be paid for before another is issued.

**HUW ROBERTS, Librarian.**

YN ÔL I BS/STORFA

OWEN, R.

Rhif/No. 31051472

Dosb./Class W 891.6612

Dylid dychwelyd neu adnewyddu'r eitem erbyn neu cyn y dyddiad a nodir uchod.  
Oni wneir hyn gellir codi tal.


This book is to be returned or renewed on or before the last date stamped above,  
otherwise a charge may be made.

LLT1

GW 3105147 2




25 MAR 1957






ROBERT OWEN.

13 APR




Robert  
Owen.

Llanuwchllyn :  
Ab Owen.



ARGRAFFWYD I AB OWEN, GAN R. E. JONES A'I FRODYR,  
CONWY.

B288276







## Rhagymadrodd.

---



**A**MRYW flynyddoedd yn ol, tra'n crwydro mewn gwlad dros y môr, daeth caneuon Robert Owen i'm sylw. Swynwyd fi ar unwaith gan brudd-der y bywyd a chan felodedd y gân. Nid oedd ef, mae'n debyg, yn meddwl wrth eu canu y cyhoeddid hwy byth. Canodd hwy fel y cân aderyn, i roddi ffrwd i'w deimlad.

Cyhoeddais rai ohonynt. Byth er hynny y mae llawer o bobl o wahanol ddulliau o feddwl, a rhai y mae gennyf ffydd gref yn eu barn, wedi deisyfu arnaf gasglu gwaith Robert Owen, a'i gyhoeddi 'n gyfrol. Wele 'r gyfrol. Hyd y gwn i, cynhwysa bob prydyddiaeth gyfansoddodd Robert Owen.

Nid yw enw Robert Owen yn yr un geiriadur bywgraffyddol na hanes llenyddiaeth eto. Oherwydd hynny rhoddir hanes ei fywyd yn gyflawnach nag y rhoddyd hanes yr un bardd arall yn y gyfres hon.

Codwyd y caneuon i gyd o un o dair llawysgrit, —llawysgrif Robert Owen ei hun, llawysgrif "Mary" ei freuddwydion, a llawysgrif Owen ei frawd. Y mae'r brawd ieuengaf hefyd, erbyn hyn, wedi huno; ar ol gyrfa ferr, ond hyawdl, fel gweinidog yr efengyl.

I Mrs. M. Vaughan Humphreys, Brogyntyn, Abermaw, yn unig. o rai sy'n fyw, y mae'n ddyledus i mi dalu diolch. Onibai am dani hi, ni fuasai Cymru wedi adnabod awen Robert Owen. Bu ei chynhorthwy yn barod a charedig, er pob cost a thrafferth.

Er fy mod wedi cael y fraint o adnabod llawer o'i berthynasau o'm hieuenctyd, ni welais Robert Owen erioed. Ond gallaf newid un o'i ganeuon, a'i dweyd fel fy mhrofiad fy hun, ac hefyd mi gredaf fel profiad Cymru,—

"Er diffodd o'i fywyd cyn imi erioed  
 A'm llygad o gnawd ei weled,  
 A thewi ohono cyn imi erioed  
 A'm clust o gnawd ei glywed,—  
 'Rwyf wedi ei weled, ac ar fy nghlust  
 Ei lais mwyn a dwys fu'n disgyn,  
 Ym myd fy nychymyg mae eto'n fyw,  
 Ac eto'n ddi-boen, megis plentyn."

OWEN M. EDWARDS.


*Llanuwchllyn,  
 Ebrill 2, 1904.*

# Cynhwysiad.

		TUD.	
<i>Hanes Bywyd Robert Owen</i> .....			7
I. SWN Y MOR.			
	TUD.		
Swn y Môr .....	23	Trigfan yr Awen .....	27
I Mary .. .. .	26		
II. CLOCH Y LLAN.			
Cloch y Llan .....	33	Fy Anwyl Fam .....	41
Y Gwanwyn i'r Amddifad ..	36	Fy Nhad .. .. .	45
O fy Nhad .....	39		
III. TELYNAU EREILL.			
Y Carcharor a'r Wennol ..	49	Y Ferch o'r Frongaled ..	53
Beddau y Teulu .. .. .	50	Nos Sadwrn y Gweithiwr ..	55
Er Undyn a Phopeth .. .. .	51	Cân Serch.....	61
Anerchiad Llywelyn .. .. .	52		
IV. MARY.			
Y Cariad Cudd .....	63	Forwynig Lân .....	75
Cusan Cyntaf Cariad .. .. .	65	Mary, Gyfeilles Hudol ..	77
Mary, anwyl Mary .....	67	Ti ddywedaist .....	81
Beth yw'r Gyfaredd .. .. .	71	Er Cof am Un Anwyl ..	
I Flodeuyn yr Eira .....	73		
V. ODDICARTREF.			
John Freeman .....	85	Ar ol Cyfeilles.....	93
Cwympiad y Dail .. .. .	88	Gobeithion Ieuenctid yn	
Y Ffordd i Baradwys .. .. .	91	Gwywo .....	95
VI. AR Y MOR.			
At Owen .....	98	Ar y Môr .....	103
Llythyr at fy Nheulu .. .. .	101		
VII. SU MOR TRAGWYDDOLDEB.			
O'r Dyfnder.....	107	Mewn Unigedd .....	110

## Y Darluniau.

- Robert Owen ..... *Wyneb-ddarlun.*  
" Wyt ti weithiau'n meddwl  
Am y gwyneb llwyd  
Unig sydd a'i ddagrau  
Beunydd iddo'n fwyd ?"
- Wyneb-ddalen ..... " Ymylon y Môr " ..... 1  
S. MAURICE JONES.
- Yn Swm y Môr ..... *I wynebu tud.* 9  
W. W. GODDARD.  
" Y swm a'm suodd gyntaf ydoedd  
Swm y môr."
- Ger Abermaw ..... *I wynebu tud.* 25  
O wawl-arlun gan H. OWEN.  
" Yng ngwyleidd-dra y wawrddydd  
Neu ddirifwch gosteg yr hwyr,  
Hyd fynydd, a glyn, a choedwig,  
Ac unig lennydd y dwr."
- Trigfan yr Awen ..... *I wynebu tud.* 41  
" Mân ffrydiau yn trystiog brysur  
I'w cartref ym mynwes y graig."
- Afon Mawddach ..... *I wynebu tud.* 57  
O wawl-arlun gan H. OWEN.  
" Y Mawddach, fel harddwch mewn breuddwyd."
- Llwyn Gloddaeth ..... *I wynebu tud.* 73  
S. MAURICE JONES.  
" Fy anwyl, anwyl Lwyn."
- Yn Nyffryn Mawddach ..... *I wynebu tud.* 89  
O wawl-arlun gan H. OWEN.  
" Gwastadedd a dyffryn a glyn."
- Glan y Môr ..... *I wynebu tud.* 105  
" Y Môr, mor ddynol newidiol,  
Ac eto mor ddwyfol yr Un."



## BYWYD ROBERT OWEN.



C eithrio Glasynys, nid oes fardd Cymreig, hyd y gwn i, wedi ymhyfrydu â'i holl enaid ym mhruddder su tragwyddol y môr. Clywir adlais rhu ei donnau mewn llawer emyn a chân, ond nid mor aml y darlunnir ei brydterthwch a'i swyn. Yr un gair a *marw* ydyw ei enw, anial ac oer ac ystormus ydyw i lawer bardd Cymreig. Gwell ganddo ef ddilyn Wordsworth i dawelwch mawreddog a sancteiddiol y mynydd na dilyn Byron mewn llawenydd rhyddid hyd donnau ystormus y môr. Am nefoedd y Cymro, fel am nefoedd yr Iddew, gellir dweyd,—“A'r môr nid oedd mwyach.”


Y mae'r môr ar dri thu Cymru, nid oes ond dwy o'r tair sir ar ddeg heb fod yn taro arno. Y mae tlysni a hyfrydwch ei lannau yn ddiharb; ac y mae'n debyg nad oes yng ngolygfeydd y byd olygfa dlysach na'r lle mae'r afon Maw yn ymgolli yn y môr. Ond hyd yn oed yno, nid yw'r beirdd wedi teimlo swyn y môr; ac nid oes dim o'i fawredd gorfoleddus, nag o hyfryd awgrymiadau ei su esmwyth pell, wedi mynd i'w cân. Ar y naill ochr i'r Maw yr oedd Dafydd Ionawr; ond enaid at ramadeg a rheolau cynganedd oedd ganddo ef, nid at chwyldroad a'r môr. Yr ochr arall yr oedd Sion Phylip, sydd a'i fedd ar ymyl y tywod, lle mae'r gwyfanod yn hofran


uwchben adeg ystorm; ond dros y mynyddoedd yr edrychai ef, mewn pryder am eglwys a gwladwriaeth, ac nid dros y môr tua chartref y pererin rhydd.

Unwaith tybiais fod bardd wedi ei eni i wneyd swm y môr yn rhan o feddwl a chân Cymru. Ugain mlynedd yn ol cyfansoddwyd "Swm y Môr" gan fachgen ieuanc yn yr ysgol. Nid oedd ond dwy ar bymtheg oed; ond yr oedd gofid, a hadau afiechyd hwyrach, wedi ei ddysgu i sugno cydymdeimlad o swm y môr. Aeth i lan y môr ac i ymylon tragwyddoldeb yn ieuanc, ac y mae adlais o'r su dieithr pell yn y caneuon adawodd ar ei ol.

Ganwyd Robert Owen ger yr Abermaw, Mawrth 30, 1858; bu farw ger Harrow, Victoria, yn Awstralia, Hydref 23, 1885; ac y mae lled y ddaear rhyngddo a'r fan y clywodd gyntaf swm y môr.

O fewn ergyd carreg i'r brif-ffordd sy'n rhedeg o'r Abermaw trwy Ddyffryn Ardudwy, rhwng capel y Parsel ac eglwys Llanaber, saif ffermdy bychan o'r enw Tai Croesion. Amgylchynir y ty, adeilad digon cadarn, gan goed talgryfion. Gwyneba y môr mawr llydan, ac y mae yn ddigon agos ato i unrhyw un a wrandawa glywed swm "gwendon yn dilyn gwendon" ac yn marw ar y traeth. Yno y ganwyd Robert Owen, mab Gruffydd a Margaret Owen. Brodor o Benllyn oedd Gruffydd Owen; ganesid ef yn y Ty Llwyd, Cwmtirmynach, ger y Bala. Pan yn llanc ieuanc hawddgar, a'i harddwch corfforol yn ddihareb, symudodd gyda theulu o'i gymdogaeth i'r Ty Mawr, Talsarnau. Fel ei deulu, gŵr cariadus.





YN SWN Y MŌR.  
Dan Lwyn Gloddaeth, lle'r a'r Fawddach i'r môr.



cymhwynasgar oedd, yn ddifyr iawn ei gwmni, gyda gair ffraeth caredig yn barod bob amser, ac yn hoff iawn o gân. Bu farw Chwef. 26, 1875, yn naw a deugain oed, wedi ei siomi yn ei hoff obaith.

Fel ei gŵr, yr oedd Margaret Owen yn hynod am ei charedigrwydd a'i lletygarwch siriol; y nodwedd a'i gwahaniaethai oddiwrtho ef oedd ei phenderfyniad meddwl. Merch Gwern Einion, ger Llanbedr, oedd. Credai mewn gwaith; a gweithiodd yn rhy galed ei hun i fagu ei phlant. Ni bu iddi ddiddanwch ar ol marw ei gwr; ac aeth ar ei ol y seithfed o Fai yn y flwyddyn wedyn, yn saith a deugain oed.

Pan oedd Robert Owen yn bedair oed, symudodd y teulu i fyw i'r Abermaw, ac yr oedd erbyn hynny frawd bychan tew o'r enw Owen, deuffwydd oed. Ty ar ochr y graig oedd y ty newydd, o'r enw Pen y Bryn. Gŵyr pawb fel mae'r Abermaw wedi ei adeiladu ar wyneb craig, ac fel y medr y trigolion weled y llongau ar y môr dros simddeuau eu gilydd. Symudasai Gruffydd Owen, gyda'i wraig a'i ddau blentyn bach, i fod yn ben badwr ar afon Mawddach; yr oedd hynny cyn amser y ffordd haiarn a'r bont, er fod y ffordd a'r bont wedi eu dechreu. Collodd y cychwr ei alwedigaeth, a chollodd y rhan fwyaf o'i arian wrth ofer ymglyfreithio a'r cwmni oedd wedi dinistrio ffon ei fara.

Yr oedd bryd Gruffydd Owen ar ffarmio. Cymerodd Lwyn Gloddaeth, ffermdy yng Nghwm Sylfaen, ychydig dros filltir o'r Abermaw. Symudodd yno ar galan gauaf 1867, gyda'i deulu a gwas a morwyn. Lle caregog a diffwrth

oedd ar y goreu, llawn creigiau a drain a grug ; ond yr oedd yr amaethwr wedi rhoddi ei galon ar ei wneyd yn gartref cysurus gweddill ei oes. Llusgodd dunelli lawer o galch i fyny i'r fferm, gorchuddiodd wyneb yr holl feusydd â chalch a phridd, ymrôdd i godi cloddiau a thorri ffosydd, a gwnaeth i wair ac yd dyfu mewn caeau oedd yn wyllt ers blynyddoedd. Ac nid llai oedd ymdrech Margaret Owen yn y ty.

Tra'r oedd eu rhieni'n gweithio yn galed, chwareuai'r ddau fachgen yn hapus. Gadawsant chware cwch a llong ; ac aethant i gadw ffarm. Yr oedd gan bob un ei dyddyn ar y bryn wrth dalcen y ty, gyda chregin duon yn wartheg a chregin cocos yn ddefaid ; ac yno y byddent yn ddedwydd ddigon, hwyr a bore, yn prynnu a gwerthu fel pe buasant y ddau amaethwr mwyaf yn yr holl dir. Toc daeth chwaer fach hefyd, iddynt wylïo'r amser y doi i sylwi ac i wenu arnynt.

Ciliodd dyddordeb Robert Owen oddiwrth ei deganau, yr oedd wedi cael blas ar ddarllen a meddwl. Yn yr ysgol Sul ac yn yr ysgol ddyddiol yr oedd ei gyflymder a'i weithgarwch yn tynnu sylw pawb. Yr oedd ysgol Frytanaid wedi ei hagor dan y capel yn yr Abermaw yn 1868 neu 1869, a gwelodd yr athraw ddefnydd is-athraw yn Robert Owen. Aeth y bachgen adre'n llawen y noson honno, a'i frawd llai yn rhedeg ar ei ol i fyny'r llethr serth, i roddi cais yr athraw o flaen ei dad. Ond, er ei alar, ni fynnai ei dad wrando arno. Wylodd drwy'r nos, tynherodd calon ei fam ; ac yn y bore dywedwyd fod ei dad yn foddlon. Ac yna dechreuodd ymdrech y bachgen

## Unigedd Athrylith. I I

i godi yng ngrym ei athrylith i allu a defnyddioldeb,—yr ymdrech bruddaf, ond mwyaf dyddorol, feallai, yn hanes efrydwyr tlodion Cymru.

Beth yw'r rheswm fod ambell i fachen mewn ysgol, heb gynorthwy cyfoeth na theulu na dysg, yn unig ymysg ei gyd-ysgolheigion chwareugar fel un yn babell i ryw ysbryd mwy pur a choeth na'u hysbrydoedd hwy? Y balchder urddasol, y boneddigeiddrwydd naturiol, yr uchelgais ysol, y gonestrwydd anhyblyg,—o ba le y daethant i'r galon fach sy'n curo dan gob sy'n dangos gofal a thlodi mam? Tra'r oedd holl fryd ei gymdeithion ar chwareuon a melusion, pa beth oedd yn ei ddenu ef i unigedd ochrau'r Llawllech, i ynhyfrydu ym mhrydferthwch natur, ac i gyfuno'r mwynhad hwnnw gyda chariad, oedd yn ymagor yn ddistaw fel rhosyn, at eneth fach lygat-ddu oedd yn chware gyda'r lleill?

Lle tawel yw'r Abermaw. Cysgod sydd yno, a lle i ymfwynhau; nid lle i fagu anturiaethwyr. Nid llawer o wŷr enwog gododd yno, os neb. Os symuda meddwl yno o gwbl, symuda,—dan ddylanwad ymbleserwyr a llyfrgell y ffordd haiarn,—yn esmwyth ddiog yn ol. Ac yno yr oedd bachgen unig, a rhywbeth wedi defro pob cynneddf iddo. Yr oedd pawb yn ei adnabod, ond yr oedd yn ddieithr yn eu mysg. Gwrandawai'n astud ar y pregethau, mwynhai'r seiadau, nid oedd ball ar ei lafur at yr ysgol Sul, carai'r plant yn angerddol, hanner addolai ei dad a'i fam, ac yr oedd prydferthwch yr eneth honno yn rhoddi ei wedd ddedwydd ar fywyd cudd ei feddwl. Ond eto yr oedd yn unig; yn anesboniadwy hyd yn oed i'r rhai a'i carai. Cerddai lwybrau dieithr iddynt,—min a môr a glan tragwyddoldeb o hyd.

Pan yn alltud pell, a'i uchelgais wedi troi'n anobaith, a phan yn hiraethu am y fam allasai leddfu peth o'i gur, dywed ran o hanes yr ymddieithriad yn ei gân, "Fy Mam."

Yr oedd y byd yn gwasgu ar yr amaethwr, druan. Yr oedd wedi benthyca arian i fynd i Lwyn Gloddaeth, nid oedd ei lafur yn dod ag ennill iddo, aeth yn dlawd yn onest; a gorfod iddo droi ei gefn, a'i galon ar dorri, ar y lle yr oedd pob gobaith yn y byd hwn wedi angori wrtho. Nid oedd ing meddwl Robert Owen yn llai nag ing meddwl ei dad. Aethant yn ol i'r Abermaw i fyw, a nod bywyd y bachgen yn awr oedd ennill digon i roddi ei dad yn ol. Ddeng mlynedd i ddiwrnod marw ei dad, yr oedd Robert Owen yn Awstralia yn meddwl am dano. "Ddeng mlynedd i heddyw," meddai, "bu farw fy nhad. Duw yn unig wŷr faint o honof fi fu farw gydag ef. Wrth edrych yn ol, gwelaf mai colli fy nhad oedd colled fwyaf fy mywyd i. Cyn ei farw, yr oedd gennyf ddymuniad goruchel. Nis gallaf ddweyd wrthych mor gryf ydoedd, mor ddidor y canlynai fi ddydd a nos, gymaint ddiodefais yn ddistaw er ei fwyn. Yr oeddwn wedi gweled fy nhad yn gorfod ymadael â'r tyddyn bychan garai mor fawr, ac yn dod yn labrwr cyffredin; ond, cyn pen ychydig flynydd-oedd, yr oeddwn am ei roddi ar dyddyn gwell, na fuasai raid iddo ei adael byth, byth tra'n fyw, byth. Ni chai fy nhad ddioddef eisiau tra y medrwn i ennill dim. Bwytaodd y pwrpas hwn i'm henaid fel gwallgofrwydd. Gwasgwn fy nannedd, cauwn fy nyrnau mewn digllonedd, wrth ddychmygu fod neb yn ameu fy mwriad." Ac

yna doi'r dagrau wrth gofio mor hapus fu yn Llwyn Gloddaeth; ac wrth feddwl nas gallai unlle byth fod fel yr hen.

Yn haf 1874 yr oedd y tad yn gweithio yn y Sylfaen, ac yn dod adref ar nos Sadyrnau. Codai Robert Owen bedwar o'r gloch y bore i astudio; a rhyw fore Llun gadawodd ei Caesar ac aeth gyda'i dad i gyfeiriad ei hen gartref. Aethant trwy'r Abermaw cyn i neb godi; a gwelai'r bachgen, oddiwrth wyneb gwelw ei dad, fod rhyw ofid yn ei lethu. Wrth basio Ty'n y Maes, cyfeiriodd y tad at ryw welliantau oedd yn feddwl wneyd pe cawsai aros yn Llwyn Gloddaeth; ac aeth ei wyneb yn bruddach fyth wrth son am y tyddyn.

“O nhad,” ebe'r bachgen, “peidiwch rhoi'ch calon i lawr fel yna, peidiwch yn wir. Yr ydach chi yn sicr o gael gweld dyddiau gwell eto, gwell o lawer. Os ca i fyw, nhad, mi fynna' i'ch gweld chwi eto yn feistr arnoch eich hun, mewn ffarm gystal a Llwyn Gloddaeth beth bynnag.” Yr oedd llais y bachgen yn crynnu, a'i lygaid yn wlybion.

“Byth, Bob, byth,” oedd unig ateb y tad.

Trodd y bachgen yn ol, at ei lyfrau. Yr oedd yr haul erbyn hynny wedi codi ar olygfa ardderchocaf Cymru, a'r bore'n rhyfeddol hyfryd, ond dan wylo y daeth Robert Owen adre. Ymhen mis neu ddau daeth ei dad adref wedyn, yn wael, a gwelodd ei fab ystyr y geiriau “Byth, Bob, byth.”

Ond ni cholodd y tad o feddwl Robert Owen. O'r adeg y dringai ei lin hyd y dydd y clywodd gnul cloch Llanaber, yr oedd o hyd mewn dychymyg yn ail fyw hen fywyd ei blentyndod.

Dair blynedd wedi marw ei dad y mae ei hiraeth cyn gryfed ag erioed,—yn ei gân, “Fy Nhad, fy anwyl Dad.”

Bum ar bererindod yng nghyffiniau Llwyn Gloddaeth. Saif i fyny ar y bryniau sy'n codi o lan afon Maw. Oddiyno ceir golygfeydd nad oes eu harddach yng Nghymru, os yn y byd. Lle gwael i godi ymborth sydd ar y bryniau creigiog a grugog hynny; y mae caeau gwenith a phytatws yr amaethwyr yn ymestyn, ym mhob ffurf, rhwng crugiau o gerrig a thwmpathau drain. Synna'r dieithr pa fodd y medrasent arloesi lleoedd felly, os nad â fforch; na'u medi, os nad â siswrn. Ond nid ar fara'n unig y bydd byw dyn. Nid yw'r eithin yn felynach yn unlle, na'r grug yn gochach; y mae natur yn gwisgo'r mynyddoedd ag ysblander o felyn a choch na welodd dychymyg bardd eu prydferthach. A'r mynyddoedd mawr, y Gader a'r Aran, safant yn ddifrif-ddwys draw—a'u gwisg niwl yn newid yn amlach na hyd yn oed ffasiynau'r ddaear. Ac odditanodd clywir su'r môr, nid rhu bygythiol, ond su esmwyth Sabbothol. Yma deffrôdd awen Robert Owen, a dechreuodd ganu cân, ond daeth angeu cyn iddo gyrraedd yr amen. Yn honno, mewn dull difyr, darlunia ei hun yn mynd

“Am dro yng ngwyleidd-dra y wawrddydd,  
Neu ddifrifwch gosteg yr hwyr,  
Hyd fynydd a glyn a choedwig,  
Ac unig lennydd y dŵr.”

I geisio ymgydnabod â'r awen aeth i ben y Llywlech i weld toriad gwawr, ac i weled a ddeuai'r dduwies gyda hi. Wedi'r bore hwnnw, yr oedd pob peth adnabyddai gynt wedi ennill ystyr newydd,—

“ Y morfa a'i aml dwmpath,  
 O for-hesg a blethem ni gynt,  
 Y tywod yn fil o domennydd  
 Amrylun wrth fympwy y gwynt,—  
 A'r Môr, yr hen Fôr, fy addysgydd  
 Yn blentyn, a'm cyfaill yn hŷn,  
 Y Môr, mor ddynol-newidiol,  
 Ac eto mor ddwyfol yr un.”

Gwnaeth y bachgen athraw campus. Yr oedd yn hoff o blant, ac yn bryderus iawn am danynt. Darlennai lawer am danynt, ac ysgrifennai eu hanes yn ei ddyddiadur. Gweithiai â'i holl egni. Codai'n fore; weithiau ni chysgai ond awr; bywiau'n galed. Enillai ychydig at brynnu llyfrau wrth gasglu arian dros ryw gwmni yswiriol ac ysgrifennu llythyrau. Yn yr Ysgol Sul, fel yn yr ysgol ddyddiol, yr oedd ei ymroddiad yn ddiderfyn; dysgai pob aelod o'i ddosbarth lawer iawn o adnodau, dysgai yntau fwy na'r cwbl gyda'u gilydd. Tafodd Ffrancwr dysgedig o rywle i'r Bermo, y mae wedi ei gladdu yno yn y graig, fel Chateaubriand; dysgodd hwnnw bedair iaith iddo,—Ffrancaeg, Almaeneg, Ysbaeneg, ac Eidaleg.

Mwynhai bregethau'r Sabbath, ysgrifennai grynnodeb ohonynt, a beirniadai hwy'n llym. “Yr wyf yn cael rhyw bleser yn y seiat,” ebai, “nas gallaf gael yn unlle arall.” Pan yn fachgen unarbymtheg oed, clywodd Mynyddog yn canu, a hoffodd ef yn fawr. Darlennodd ganeuon cyntaf Ceiriog, ac ni welodd ddim ynddynt; er hynny yr oedd yn hoff o syllder gonest a naws delynegol Burns. Edmygai Carlyle, ond nid oedd yn ei hoffi; fel rhyw ddelw farmor arw fawreddog yr ystyriai ef. Ni welodd yr hoffder at orthrwm digydymdeimlad, a'r rhagrith, sydd

yn yr ysgrifennydd hwn; yr oedd yn rhy ieuanc. Darlennai draethodau Macaulay drosodd a throsodd, a chyfieithiodd y traethawd ar Bunyan. Swynid ei feddwl gan Shakespeare, yn enwedig gan y cymeriadau pwysicaf,—Macbeth, Lear, Othello. Ond tybiai fod un bardd mwy na Shakespeare, a hwnnw oedd Milton. Yr oedd ei edmygedd o Milton yn ymylu ar addoliad. Rhoddodd ddeuswllt unwaith am *Lives of the Poets* Johnson; a beth a gafodd am ei arian drud ond ymosodiad rhagfarnllyd yr hen ddoethawr cibddall ar ei hoff fardd. Cred frwdfrydig Milton mewn rhinwedd, ac yn nhragwyddol anibyniaeth y meddwl pur, oedd yn apelio ato,—

“Virtue may be assailed, but never hurt;  
Surprised by unjust force, but not enthralled;  
Yea, even that which mischief meant most harm  
Shall, in the happy trial, prove most glory;  
But evil on itself shall back recoil,  
And mix no more with goodness.”

Ond daeth swm cloch y llan i dorri ar ei fyfyrdd. Collodd ei dad, ac yr oedd gofal ei fam a'i frawd a'i ddwy chwaer fach arno ef. Bu ei fam farw hefyd, a daeth pryder i chwerwi ei lafur. Nid ei ddyfodol ei hun yn unig oedd ei faich, ond bywyd ei anwyliad amddifad.

Ond nid ymroddi i anobaith wnaeth y bachgen dewr. Dywed ei hanes yn danfon ei frawd Owen i ben rhiw'r Gorllwyn, fel yr oedd y ddau'n penderfynu amddiffyn eu dwy chwaer fach; ac yno, wedi gadael ei frawd, penderfynodd roddi ei fywyd i'w frawd a'i chwiorydd. Yr oedd y ffordd i goleg Bangor yn glir iddo, ond aberthodd hynny er eu mwyn hwy. Aeth yn is-athraw i Jasper House, Aberystwyth, am ychydig; ac



oddiyno i Bourne College, Birmingham. Ei gynllun oedd ennill digon i gadw ei chwiorydd, a gweithio am ei radd yn Llundain ar yr un pryd. Yr oedd goleuni ar ei fywyd eto, a gwyddai am rai'n credu ynddo ac yn ei garu.

Yn Hydref, 1878, cafodd un o'r rhain newydd prudd oddiwrtho. Yr oedd y pryder a'r lludded wedi gwneyd eu hol arno. "A fedrwch gredu," gofynna, "fod eich hen gyfaill yn barod yng ngafael y darfededigaeth, ac nad yw'n debyg o fyw mwy na blwyddyn, feallai ddim mwy na chwe mis?" Dywedodd dau feddyg yr un ystori anobeithiol wrtho, gan ddweyd y byddai raid iddo roddi ei waith i fyny a mynd adre i farw. Yr oedd yn ymostyngar, "ond y mae'n arw gennyf fod yn rhaid i'm bywyd ddod i'r pen cyn i mi orffen fy nghynlluniau bychain dros fy mrawd a'm chwiorydd. Yr oeddynt hwy i fynd i'r ysgol i Ddolgellau, a'm brawd i barotoi at y weinidogaeth. Yr oeddwn wedi gyrru peth arian iddo, a siwt o ddillad. Wrth feddwl mor ddiameddiffyn fyddant hwy, yr wyf wedi wylo nes bron dorri fy nghalon. Nid wyf yn galaru am fy nghynged fy hun, y mae bywyd wedi colli ei swyn i mi. Y mae fel anialwch oer i mi, heb lwybr, heb gydymaith, heb flodeuyn; dim ond blynyddoedd blin o lafur a thrallod, yn ymestyn fel tonnau o dywod yn y diffaethwch, a marw anocheladwy y tu hwnt."

Cafodd gydymdeimlad serchog Cymry caredig Birmingham, ac yr oedd ganddo le dwfn yn serch pawb gyfarfyddasai. Yr oedd y plant, yr athrawon, a'r gweision yn cystadlu â'u gilydd i ddangos eu caredigrwydd tuag ato. Nid oedd

dim yn fwy wrth ei fodd yntau na chael y plant i'w ystafell, i roddi gwledd o ddanteithion ac ystraeon iddynt. Yr oedd meddwl am ei chwiorydd wedi rhoddi gallu iddo ddeall calon plentyn. Ym Mirningham yr ysgrifennodd "Y Ffordd i Baradwys."

Tawelodd ei feddwl. Cafodd ei galon serchog foddhad wrth weled a theimlo cariad y rhai a'i hamgylchynai. Ysgrifennai lythyrâu, crynhoai ei serch at ei frawd a'i chwiorydd, yr oedd yr eneth honno'n ymberffeithio yn ei ddychymyg, canai ambell i gân leddf.

Nid peth hawdd oedd marw'n ugain oed. Daeth hiraeth angerddol am y Bermo, daeth awydd am fyw. "Ni bum ddiwrnod yn iach wedi gadael Llwyn Gloddaeth,"—os oedd tralod wedi ei wneyd yn afiach, oni fedrai gobaith ei wneyd yn iach? Edrychodd o gwmpas ei ystafell fechan, a gwelodd lyfrau,—cymdeithion mwyn,—ar y bwrdd a'r cadeiriau a'r llawr. Yr oedd y byd yn dlws eto, yr oedd gwaith iddo eto,—ni fedrai fynd adre i farw. Penderfynodd fynd i'r ysbyty yn Llundain. Ar ddiwrnod oer clir ym mis Tachwedd gadawodd ei ysgol, ac aeth i Chelsea. Ar y ffordd holodd rhyw hen foneddiges ei hanes, a rhoddodd hanner sofran yn ei law wrth ymadael. Golwg brudd gafodd ar yr ysbyty,—llu o bobl wan yn pesychu ac yn disgwyl eu tro i fynd at y meddyg. Daeth ei awydd am fyw'n gryfach. Penderfynodd groesi'r môr, fel cynifer, a gweithio weddill ei ddyddiau yno.

Ar y môr, cafodd hamdden, fel yr ehedydd yn y gwanwyn neu'r eos yn y nos, i dywallt ei deimlad mewn cân, "Ar y môr."

Yn ystod y fordaith gweithiai, myfyriai, breuddwydiai; ac er mor debyg oedd y môr ddydd ar ol dydd, gwnaeth ei awel hallt ac iach les mawr i iechyd yr alltud. Mawrth 29. 1879, yr oedd ei long y tu allan i Benrhyn Gobaith Da, ac ysgrifennodd ei lythyr, "At fy Nheulu."

Nid oedd ganddo gyfeillion ar y llong, ar yfed a bwyta yr oedd bryd ei gymdeithion. Mewn unigrwydd yr oedd, yn edrych dros y llong ar y tonnau a'r ser. Daeth adgofion plentyndod yn unigedd y môr,—am y bryniau a'r corysdd yn su môr y Bermo; a rhoddodd hwy mewn cân fydd byw yn hir,—“At Owen.”

Cyrhaeddodd Melbourne y seithfed o Ebrill, 1879, yn llongach ac iachach nag y meiddiasai ddisgwyl bod. Cafodd gyfeillion caredig yno, hoffodd erddi y ddinas dlos, a dywedodd y meddyg y gallai fyw. Gwenai'r haul yn dlws ar goedydd gwyrddion; yr oedd bachgen a geneth, ar fin priodi, yn rhodio mewn dedwyddwch perffaith,—adeg na ddaw ond unwaith mewn oes,—a thaflodd eu hapusrwydd adlewyrch ar fywyd yr alltud unig. Cafodd le fel athraw gyda theulu o Wyddelod calon-gynnes, oedd yn byw ar fferm Mullagh, ger Harrow, Victoria; a buan iawn yr aeth ef a'r teulu i serch eu gilydd. Bu'n hapus iawn yno,—yn darlunio beth oedd eira i'r plant, yn eu dysgu, yn cyd-chwareu â hwy, yn breuddwydio am Lwyn Gloddaeth a'r Bermo, yn hela'r kangaroo a'r wningen, yn edrych ar y pren almon yn blodeuo. Weithiau daw hiraeth angerddol am Gymru ato. "O am anadlu'r awel oer iach fyddai'n dod dros y môr pan oedd yr haul newydd fachlud dros fynydd yr Eifl, yn lle'r

poethwynt sydd wedi crwydro dros anialdiroedd tywod!" Diflannodd ei atal dweyd; yr oedd yn athraw profedig erbyn hyn, ac yn dyheu 'am ychwaneg o waith. A'r cariad cudd hwnnw,—troai fyd y darfodedigaeth yn nefoedd yn ei ddychymyg.

Ond sylodd i'r dyfnderoedd drachefn. Aeth ei feddyliau drachefn at y marw. Cofiodd ei dad,—gwelai ef yn berffaith. "A fy mam, O fy anwyl fam, mor wahanol, mor wahanol fuasai pe buaset yn fyw, a chyda dy fab gwael?" Bu dieithriaid mor garedig a chwaer a mam iddo hyd Hydref 23, 1885, pan orffwysodd ar y breichiau tragwyddol.

Llwyn Gloddaeth a gwrthrych ei gariad cudd oedd yn ei feddwl hyd y diwedd. Wrth ddarlunio'r cariad hwnnw, y mae yn ei gân weithiau adlais o awen Iddewig Heine,—

"Dyfnaf yr eigion man,  
Glasaf ei donnau ban,  
Tecaf ei arlliw pan  
    Bella'i waelodion;  
Felly arddengys lliw  
Dulas ei llygaid gwiw  
Ddyfnder serchiadau byw,—  
Ddyfnder ei chalon."

Nid yn ei ieuencid yn unig y cafodd y cwmni hanner greodd ei ddychymyg ei hun,—

"Mae dy wedd fel gwyneb angel  
Yn ymwithio ger fy llygaid.  
Ac yn gwneyd i'm calon lamu  
Eto unwaith, fel yn nyddiau  
Ein plentyndod. O dy lygaid  
Du a disglær disgyn arnaf,  
Megis awen dy brydferthwech,  
Megis adladd y breuddwydion  
A'r gobeithion a ymwëent  
Gynt oddeutu twf dy swynion."

Ar derfyn y daith fer, ond blin a thymhestlog,  
 cofia gymaint o'i feddwl gymerai Llwyn  
 Gloddaeth a gwrthrych ei gariad cudd. Am  
 danynt hwy yr hiraethai'n angerddol, drwyddynt  
 hwy y gwelai'r pur a'r ysbrydol. Tybed, yn  
 ymyl tragwyddoldeb, ei fod wedi bod o'r ddaear  
 yn rhy ddaearol? Ac yna esgyn gweddi olaf yr  
 enaid ieuanc cystuddiedig prydfferth,—

“O fy Nuw, fy Nhad, fy nghyfaill,  
 Ti sy'n gwybod holl ddirgelion  
 Calon dyn a'i fawr ddiffygion,  
 Maddeu imi am anghofio  
 Serch dy ofal am dy blyntyn  
 Drwg anufudd, derbyn angerdd  
 Fy ymroddiad i un arall  
 Fu i mi yn lle dwyfoldeb,  
 Megis pe i ti ei telid.”

Y mae afon Mawddach eto'n aros, “fel  
 harddwch mewn breuddwyd.” Wrth ei dilyn hi  
 y gwelais i'r môr gyntaf erioed. Lle rhyfedd  
 oedd yr Abermaw i ddychymyg plentyn o'r  
 mynyddoedd,—gyda'i dywod, ei gregin a'u  
 cyfrinion, ei greigiau rhamantus, a swyn y môr.  
 Arhosai y swyn hwnnw yn fy nghlustiau, a  
 thybiwn ei fod yn llawn o ryw gyfrinion, o ryw  
 wybodaeth na ddeallwn ei hiaith. Dwyshaodd  
 a dyfnaodd fy meddyliau; yr oedd fel cylch o  
 ddieithrwch, y swyn dwfn hwnnw, o amgylch fy  
 syniadau terfynedig, yn fy nhemtio'n barhaus i  
 edrych ymbellach. Carwn swyn yr aberoedd fel  
 o'r blaen; ond, wedi clywed swyn y môr, tybiwn  
 fod trefn ar amrywiaeth eu miwsig. Teimlwn  
 fod swyn y môr a'i ofnau o'm cwmpas, fel  
 tragwyddoldeb o gylch fy mywyd, yn derbyn pob  
 swyn arall ac yn rhoi ystyr iddo.

Yr oedd hyn cyn clywed am Robert Owen, a

chyn darllen llinell o'i waith. Wedi dod i gydnabyddiaeth ag ef trwy rai o'i ganeuon, ac wedi ceisio deall ei fywyd, daeth yr Abermaw a swm y môr yn fwy i mi nag erioed. A chan feddwl i ereill ddal mwy o sylw ar brydforthwch rhyfedd afon Mawddach a'r Abermaw, gan feddwl am i eraill glustfeinio ar swm y môr, yr ysgrifennais yr hanes hwn.

Neges fawr bardd ydyw rhoddi ym mywyd dyn heddwch na feddai o'r blaen. Yn araf deg, y mae'r awen yn gwneyd heddwch rhwng Duw a dyn, rhwng dyn a dyn, rhwng dyn a natur. Y mynydd, yr anialwch, y môr, y dymhestl, y nos,—bu y rhai hyn yn elynion ac yn ddychryn i ddyn. Ond y mae bardd, rhyw Wordsworth neu Islwyn, yn ein dwyn i'w heddwch o hyd. Y mae mawredd y mynyddoedd, ehangderau'r anialwch, swm y môr, godidowgrwydd y dymhestl, a thlysi gwylaidd y nos,—y maent oll wedi colli eu dychryn i ni erbyn hyn, ac y mae cariad wedi bwrw allan ofn wasgai'n ingol ar eneidiau ein cyndadau.

Ymysg y beirdd cymwynasgar hyn rhaid rhoddi Robert Owen. Wrth ymhyfrydu yn swm y môr ei hun dysgodd ereill i wrando arno, a gadawodd fwy o heddwch yn y byd nag a gafodd.

Y mae ei ganeuon, lawer o honynt, yn anorffenedig. Pe cawsai fyw, y mae'n ddiameu y perffeithiasai lawer llinell; ond gwnaeth angau iddo eu gadael fel yr ysgrifenasai hwynt mewn llythyr neu ddyddyfr. Heddwch iddo; caffed dragwyddoldeb i sylweddoli ei obeithion sffurfiwyd yn swm y môr.



# ROBERT OWEN.

## I.—SWN Y MOR.

### SWN Y MÔR.

**S** mor hoff yw gennyf gerdded  
Glan y môr!  
Ac mor anwyl gennyf glywed  
Swn y môr!  
Mwyn-gan ddwys yr afon fechan  
Wrth ymdreiglo dros y graian  
Sydd yn hoff,—ond nid fel prudd-gan  
Swn y môr.

Man fy ngenedigaeth ydoedd  
Min y môr;  
Y swn a'm suodd gyntaf ydoedd  
Swn y môr;  
Mae fy ysbryd wedi helaeth  
Yfed chwerwder ei alaeth,  
Cyfran heddyw o'm bodolaeth  
Ydyw swn y môr.

Pan o ddwndwr byd yn cilio  
I lan y môr,  
Yno am orffwysdra i chwilio  
Yn swn y môr,

Cefais lawer tawel ennyd  
 Hamdden i fyfyrto bywyd  
 Draw ymhell o'i dwrf terfysglyd,  
 Yn swm y môr.


Dan archollion brathol siomiant  
 Awn i lan y môr,  
 Yno i chwilio am ddyhuddiant  
 Yn swm y môr ;  
 Dywedyd, yn ei ddull difrifol,  
 Nad yw gwynfyd yn arosol,  
 Ac mai gwagedd popeth dynol,  
 Mae swm y môr.


Tra ar lawr dan drallod ingol  
 Profedigaeth ddu,  
 Wedi colli'n anamserol  
 Un o'm rhiaint cu,  
 Nid adfydus gwyneb hudol  
 Anian, er fy ngofid mabol,  
 Canys gwenai gwanwyn siriol  
 Ar bob tu.

Ond gwell na'i gwên oedd gennyf ruad  
 Min y môr,  
 Yno cefais gydymdeimlad  
 Swm y môr,—  
 Gwendon gref yn dilyn gwendon  
 I guriadau prudd fy nghalon,  
 Gan dragwyddol ruddfan undon  
 Min y môr.

O mor hoff yw gennyf gerdded  
 Glan y môr,  
 Ac mor anwyl gennyf glywed  
 Swm y môr !







GER ABERMAW.

Ger Llwyn Penmaen, ar gyfer Llwyn Gloddaeth.

[H. Owen.

Saith o'm brodyr a chwiorydd  
 Sydd yn gorwedd gyda'u gilydd  
 Ym mhriddellau mynwent lonydd  
 Ar fin y môr.

Ac yn gorffwys yn Llanaber,  
 Ar fin y môr,  
 Mae fy nhad, fy rhiant tyner,  
 Yn swm y môr,  
 Ar yr anial wedi blino ;  
 Digon i'w weddillion yno  
 Bellach fydd cael tawel huno  
 Yn swm y môr.

A phan ddaw'r dydd y'm gwysir innau  
 I'r beddrod oer,  
 Cladder fi, fel fy nghyndadau,  
 Ym min y môr ;  
 Wedi gorffen blinwaith bywyd,  
 Yno llechaf dan y gweryd,  
 Draw o swm enllibion drygfyd  
 Yn swm y môr.



## I MARY.

**M**ARY anwyl! fel mae nghalon,  
 Yn dyheu am danat ti;  
 Am dy wenau, am dy eiriau,  
 S'yn aroglï hedd i mi.  
 Pan yng nghwsg, parhaus ymrithio  
 Wna dy ddelw i fy mryd,  
 A phan yn effro, ymgymysgu  
 Mae a'm serch-feddyliau i gyd.  
 Nid wyf am weniethio iti,  
 Nid wyf am ddywedyd fod  
 Lliw dy ruddiau fel y rhosyn,  
 Nac fel cannaid liw yr ôd,  
 Nid yw tegwch ond yr enfys  
 Sydd am funud yn boddhau,  
 Wedyn cilia, ni adawa  
 Ond ei adgof i'n tristau.  
 Gwell na thegwch gwedd yw gennyf  
 Dlysni meddwl, glendid bron,  
 Calon bur, addfwynder ysbryd,  
 Llygaid duon hawddgar llon;  
 Dyma bethau nad yw amser  
 Ond cynhyddu eu hudol rym;  
 Dyma bethau, Mary serchog,  
 Sydd yn dy anwyllo i'm.  
 Dan ddylanwad swyn dy lygad,  
 Yn dy gwmmi fin y nos  
 Gynted yr ehedai drosod  
 Hafaidd oriau boreu oes!  
 Cryfder cydymdeimlad calon  
 S'yn fy ngwasgu at dy fron,  
 Sydd yn gwneyd yn wael wrthrychau  
 Eraill bethau'r ddaear hon.

## TRIGFAN YR AWEN.

**D**AN oeddwn yn llencyn difarf  
 Heb eto weled y byd,  
 'Roedd ynnof ryw awydd mynnu  
 Mewn rhywbeth ragori ryw bryd.  
 Wrth gwrs, nid oedd fy nymuniad  
 Er cryfed ei ruthr bryd hyn,  
 Ond fel afon i lwyr ymgolli  
 Yn nhywod siomiant syn.

Modd bynnag, credwn eto  
 Fod bywyd yr un â'i wedd,  
 A phell o fy nghalon oedd meddwl  
 Am ofid, na blinder, na bedd;  
 Gwell gennyf o lawer oedd meddwl  
 Am bethau mwy hudol a hardd,  
 Ac o bopeth, yr hoffaf beth gennyf  
 Oedd meddwl am ddyfod yn Fardd.

Dywedais fy meddwl wrth amryw,  
 Ond prin y gefnogaeth a ges,  
 Am hwyrach, fod gormod o "Hunan"  
 O'm cwm pas neu ormod o wres  
 Yn fy awydd, neu am fod braidd ormod  
 O "Hunan" mewn eraill—can's pwyl  
 Heb wenwyn all weled glashogyn  
 Yn ymgais yn amgen na hwy?

Ond wedi ymholi dygyn  
 Ces allan, er dyfod yn Fardd,  
 Bod rhaid gwneyd cyfeilles,—neu gariad  
 Os posib, o'r Awen hardd;  
 Ac mai peth anhawdd ryfeddol  
 Yw dyfod o hyd iddi'n awr,  
 Gan mor 'chydig a wyddant yr adeg  
 A'r manau yr ymwel â'r llawr.

Ond fe'm hysbyswyd gan rywun  
 O'r diwedd y bydd pob ffrynd  
 I'r Awen, a phob ymgeisydd  
 Am ei chyfeillach, yn mynd  
 Am dro yng ngwyleidd-dra y wawr-ddydd  
 Neu ddifrifwch gosteg yr hwyr,  
 Hyd fynydd, a glyn, a choedwig,  
 Ac unig lennydd y dŵr.

Gan hynny fe benderfynais  
 Heb golli dim amser yr awn  
 I chwilio am y peth anwyl  
 Y cyfle cyntaf a gawn.  
 'Roedd gennyf gryn lawer o hyder  
 (Fel llanciau'n gyffredin) y gwnawn,  
 Ond cael pwt o sgwrs efo'r feinwen,  
 Bopeth cydrhyngom yn iawn.

Felly ryw ddiwrnod cychwynnais  
 Rai oriau cyn toriad y wawr,  
 Am gopa y Llywllech i weled  
 A ddeuai y Dduwies i lawr ;  
 Wrth ddringo llethrau y mynydd  
 Ces aml i godwm go gas,  
 A'm dychryn ddwy waith gan hen ddafad  
 Ac unwaith gan dwrr o wellt glas.

Be' waeth? Onid tâl am bob dychryn,  
 Am fil o godymau f'ai cael  
 Pwt o sgwrs hefo'r Awen, tra natur  
 Yn dweyd "boreu da" wrth yr haul?  
 'Nol cyrraedd i ben y mynydd,  
 Gwelais o'r glynnoedd islaw  
 Gysgodion y nos yn dianc,  
 A'r ser yn ymguddio draw.

Y cymyl ar hyn ddechreusant  
 A gwrido, fel gruddiau merch  
 Wylaidd, pan am y tro cyntaf  
 Y mud-gyfaddef ei serch.

Ac yna dros ysgwydd y 'Rennig  
 Mewn gwisg o fawrhydi a hedd,  
 Gydag urddas balch hamddenol  
 Dadlennodd yr haul ei wedd.

Pob hawddgarwch Anian ymdrwsiai  
 Yn awr â chywreinrwydd merch,  
 Oll fel pe'n cystadlu â'u gilydd  
 Am gyfran o'm sylw a m serch—  
 O Anian, paham ymwisgi  
 Mor wyched er boddio ond dyn,  
 Nad yw ond dy blentyn byrhoedlog  
 A brawd i'r glas-welltyn ei hun !

Ar ogledd, a dehau, a dwyrain,  
 Mynydd ar fynydd ei ben  
 A ddyrchai fel aruthr fyddin  
 O gewri, yn bwgwth y nen ;  
 A thua gwlad Arfon, disgleiriai  
 Y môr megis arian-ddrych,  
 A'i wedd fel gwedd baban yn cysgu  
 Mor ddiiddig, mor ddi-grych.

Gerllaw, tywyll-lynnau'n ymlechu  
 Yn esmwyth is dannedd y graig,  
 Mân ffrydiau yn trystiog brysur  
 I'w cartref ym mynwes yr aig ;  
 Y Mawddach fel harddwch mewn breu-  
 ddwyd,  
 Gwastadedd, a dyffryn, a glyn,  
 Llwyni, a meusydd, a chnydau,  
 A defaid yn britho pob bryn—

Wyllt Walia! Wlad anwyl fy Nhadau!  
 Pa wlad mor deg a thydi?  
 Pa ffrydiau mor loewon? Pa rianod  
 Mor serchus a'r eiddot ti?  
 O Walia, mae calon dy blentyn,  
 Gan hiraeth ar dorri yn ddwy  
 Wrth gofio na chaiff ei lygaid  
 Ar dy degwch syllu byth mwy.

Bron iawn na chollais yn hollol  
 Fy neges yn llif y mwynhad,  
 Ond 'rol im ddod ataf fy hunan  
 Yn siomiant y trodd fy moddhad;  
 Rhaid bellach oedd cau fy llygaid  
 Ar anian a'i gwridog swyn,  
 Ac a'm dwylaw ymhleth ddisgwyl  
 Dyfodiad yr Awen fwyn.

Disgwyliais mewn pryder am ddwyawr,  
 Ond disgwyl fu'r cwbl a ges,  
 Heblaw ceisio credu mai siomiant  
 Oedd oreu'r tro hwn ar fy lles,  
 Ond druan o'm pwt o athroniaeth—  
 Daeth cawod o wlaw, a bu raid  
 Iddi ddianc i ffwrdd gan fy ngadael  
 Hyd bennau fy ngliniau mewn llaid.

Ond ni fynnwn ddigalonni  
 Serch unwaith fethu fy nod—  
 Can's creadur go g'lonnog fel rheol  
 Yw llanc dwy ar bymtheg oed—  
 Felly ymhen rhai dyddiau  
 Cyfeiriais fy nghamrau 'r ail waith  
 I chwilio am wrthrych fy nghalon  
 Ar lennydd yr eigion maith.




Hwyr ydoedd, a thawel a difrif  
 Oedd Anian is llewyrch y lloer,  
 A thristwch oedd fel yn enhuddo  
 Pob gwrthrych â'i fantell oer:  
 Ac i waelod fy enaid innau  
 Treiddiai rhyw ddieithr fraw  
 Nes gwynnu fel calch fy ngruddiau,  
 A chrynnu fel deilen fy llaw.

Eto, i mi fy hunan,  
 Nis gallwn esbonio fy mraw,  
 Can's nid oedd ond hen gydnabod  
 A'm cwrddent ar bob llaw,—  
 Llethrau Cellfechan, a'r Gelli,  
 Lle ganwaith y bum yn hel cnau,  
 Y Graig Fawr, a'r hen Allt Goediog,  
 Ac aml i ardd a chae.

Y ceunant goruwch Hendre Mynach  
 A'i greigiau ysgythrog a ffrom—  
 Lle, lawer min nos yn y gwanwyn,  
 Y crwydrais â chalon drom  
 I geisio, yn arffed unigrwydd,  
 Orffwysdra i'm henaid blin,  
 Ac yng nghwmni Anian ddyhuddiant  
 Na chawn yn ffordd fy nghyd ddyn.

Y morfa a'i aml dwmpath  
 O forhesg a blethem ni gynt,  
 Y tywod, yn fil o dommenydd  
 Amrylun wrth fympwy y gwynt—  
 A'r Môr, yr hen Fôr, fy addysgydd  
 Yn blentyn, a'm cyfaill yn hŷn—  
 Y Môr, mor ddynol-newidiol,  
 Ac eto mor Ddwyfol yr UN!

Nid oedd ond hen gydnabod  
 A'm cwrddai ar bob tu,  
 Ond nid yr un *ystyr* a wisgent.  
 Hwyrach i'm llygaid i ;  
 Ymylon aur gynt a fuasent  
 I ddarlun fy mywyd i ddod,  
 Fel cyffeswyr fy ngwynfyd eu carwn  
 Yn fachgen tair ar ddeg oed.  
 Ysbrydiaeth newydd bellach  
 A drwythai bob gwrthrych cu,  
 Ac nid adlewyrchant mwyach  
 Ond tristwch fy hanfod i,  
 Angerdd gofidiau enaid  
 Fel cwmwl, o'u cwrddydd hwy,  
 A ymagweddai nes llifo  
 Yn ddagrau o chwerwder mwy.





## II.—CLOCH Y LLAN.

### CLOCH Y LLAN.

**S**OFFED gennyf ydyw sain  
Cloch y Llan!  
Drymed imi ydyw sain  
Cloch y Llan!  
Llengoedd o adgofion sydd  
Yn tramwyo'm calon brudd  
Pan y clywaf gyda'r dydd  
Gloch y Llan.

Ganwaith pan yn blentyn gynt  
Y'm hataliodd ar fy hynt  
Cloch y Llan;  
Elai chwareu'n llwyr o'm co,  
Tra y gwyliwn lawer tro  
Fel y siglai uwch y to,—  
Cloch y Llan.

## Robert Owen.

Dyddiau diddan oedd y rhain,—  
 Dyddiau pan  
 Nad oedd tristwch im yn sain  
 Cloch y Llan ;  
 Ond yn awr wrth ganiad hon,  
 Gobaith drenga dan fy mron,  
 Fel y trenga nerth y don,  
 Ar y lan.

Flwyddi'n ol, ar foreu Sul  
 Oer a du,  
 Mewn ystafell lom a chul,  
 Gwyliwn i  
 Gydag ingoedd calon friw,  
 Ymdrech olaf tad i fyw,  
 Pan ddisgynnodd ar fy nglyw  
 Ganiad cloch y Llan.

Ond anghofiais fy mhruddhad  
 Yn y fan,  
 Pan y gwelais fod fy nhad,  
 Er yn wan,  
 Yntau'n gwrando, dan ei chwys,  
 Megis pe'r ddiweddaf wys,  
 Ar ganiadau prudd a dwys  
 Cloch y Llan.

Tawodd hon, ac yna daeth  
 Fel o waelod  
 Enaid yn ymroi gan aeth  
 Ei hir drallod,  
 Un ochenaid ddofn a maith,  
 A lefarai yn ei hiaith,—  
 "Dyma, dyma'r olaf waith  
 Clywai gloch y Llan."

Fe ddaeth eto foreu Sul  
 Duach, oerach,  
 Fe ddaeth eto i'r 'stafell gul  
 Ganiad pruddach;  
 Ond er dyfned oedd yr ust,  
 Siarad wnai y gloch wrth glust  
 Na wrandawa'i thonau trist  
 Byth mwyach.

Gorfu imi wedi hyn  
 Adael bro  
 Mebyd a mwynhad, a mynd  
 Yn fy nhro,  
 I wynebu stormydd byd  
 Heb amddiffyn un fu cyd  
 Imi'n gysgod ar bob pryd,—  
 Heb fy nhad.

Blwyddyn heibio aeth ; a phan  
 Glywais nesaf  
 Hen ddolefain cloch y Llan,  
 Cludo'n araf  
 'Roeddym tua'r olaf man  
 Yn Llanaber, farwol ran  
 Un fuasai imi'n fam  
 O'r anwylaf.

Fe ddaw eto foreu ddydd  
 Yn y man,  
 Pan y clywir eto brudd  
 Gloch y Llan  
 Yn fy ngalw innau'n ol  
 Wedi gadael byd ar ol  
 I ymorffwys mwy yng nghol  
 Tad a mam.

## Y GWANWYN I'R AMDDIFAD.

Y FLWYDDYN yn ei rhod,  
 Unwaith yn chwaneg,  
 Sy'n ddistaw wedi dod,  
 A'r gwanwyn gwiwdeg ;  
 Ias bywyd dreiddia'n ol  
 I fynydd, pant, a dôl,  
 Ac anian trwy ei chôl,  
 Eang sy'n twymo.

Arllwysa meib y llwyn  
 Eu serch ganiadau,  
 A brefiad per yr ŵyn  
 Sydd hyd y bryniau ;  
 Anadla'r briaille mwyn  
 Hoen bywyd ar bob twyn,  
 Pob cyfareddol swyn  
 Natur sy'n deffro.

Dyn befyd, er ei flin  
 A'i aml gyni,  
 Sydd yntau fel yr hin,  
 Yn ymsirioli,  
 Disgleiria yn fwy llon  
 Dân gobaith tan ei fron,  
 Rhag iddo gan fynych don  
 Siomiant, ddiffoddi.

Ond beth yw hyn i MI ?  
 Beth yw dychweliad  
 Y gwanwyn yn ei fri  
 I'r llanc amddifad ?  
 Er dod o anadl Duw  
 A chwythu ar bopeth *byw*,  
 Ni chyrraedd hyd at wyw  
 Wedd fy rhieni.

Per fyddai sw'n y gwlaw  
 Ar frigau'r coedydd,  
 Yn gwasgar ar bob llaw  
 Ei ddwys lawenydd ;  
 A gwenau heulwen ha'  
 Pan doddent ymaith ia  
 F'anobaith enaid, tra  
 'N fachgen pymthengmlwydd.

Ond bellach nid yw sw'n  
 Y gwlaw, na thegwch  
 Yr haul, ond imi'n dwyn  
 Prudd feddylgarwch,—  
 Pob diwrnod, cyn glashau  
 Y gwellt uwch man y mae  
 Fy rhiaint, sy'n tristau  
 Eu hir dawlwlch.

O anian gynt mor fad,  
 Paham ymnewid  
 Mor drylwyr, serch i'm tad  
 Fynd tan y gweryd ?  
 Ai'th wyneb llariaidd di  
 Sydd bruddach nag y bu,  
 Ai ynte'm golwg i  
 D'w'llwyd gan ofid ?

Tithau, O fywyd, pam  
 Y trodd yn dristyd  
 Dy harddwch, pan aeth mam  
 O gyrraedd blinfyd ?  
 Pam nad yw fyth mor dlos  
 Ragolwg meithder oes,  
 Enwogrwydd, dysg a moes—  
 Bydol ddedwyddyd ?

A thithau, fedd, paham  
Wrth gofio'th ddelwedd,  
Fel cynt, gan ofn, na lam  
Fy nghalon dristwedd?  
Ai, feddrod, am mai tan  
Dy wg mae gorffwys fan  
Saith brawd a chwaer a mam  
A thad tirionwedd?  
'Dyw anian, bywyd, bedd,  
Ond bys-fynegu  
Y noddfa, lle mae hedd  
Fyth yn teyrnasu ;  
Ninnau gawn yno i gyd  
Nol gorffen blinwaith byd  
Ber gymdeithasu 'nghyd  
Mwy heb ymrannu.





## O FY NHAD.

O FY nhad, fy anwyl dad,  
 A wyt ti  
 O uchelder dy fwynhad  
 Arnaf fi  
 Eto'n sylwi, megis pan  
 Yr ymddringwn er yn wan  
 Ac yn flin,  
 I'm hoffusaf sicraf man  
 Ar dy lin ?

O fy anwyl, anwyl dad,  
 A wyt ti  
 Eto'n gwenu dy foddhad  
 Arnaf fi,  
 Tra yn hwylio tua glan  
 Lestr fy nghymeriad gwan  
 Ar hyd aig  
 Bywyd, a beryglir gan  
 Lawer craig ?

O fy nhad, fy anwyl dad,  
 A wyt ti  
 Eto'n gwgu dy dristad  
 Arnaf fi  
 Pan, yn nwyfiant hy fy oed,  
 Y bwy'n sathru dan fy nhroed  
 Ddeddfau Duw,  
 Fu i ti yn gyson nôd  
 Yn dy fyw ?

Credu'r ydwyf fi dy fod,  
 A'th fod di  
 'Nawr yn ddyfnach nag erioed  
 Gyda mi,

'N cydymdeimlo pan yr wy  
 'N methu'n lân a gweled drwy  
 Nifwl du  
 Oes-amheuon, nad ynt mwy  
 Niwl i ti.

O fy nhad, a wyddost bryd  
 Y caf fi  
 Ddianc rhag gofidiau byd  
 Atat ti?

A raid imi fod yn hir  
 Dan fy nghroes yn dwyn fy nghur  
 Heb im hedd?

Ai gerllaw mae angof dir  
 Cynnar fedd?

Blwyddi bellach sydd er pan  
 Roisom ni

'Th gorff yn nwf n dawelwch llan  
 Ger y lli;

Eto'm hiraeth sy'n dwyshau  
 Fel mae'r adeg yn neshau  
 Pan gaf fi

Ddianc fry o'm pabell frau  
 Atat ti.







TRIGFAN YR AWEN.

“Gerllaw, tywyll lynnau'n ymlechu  
Yn esmwyth is dannedd y graig,  
Mân ffrydiau yn trystiog brysuero  
l'w cartref ym my wes yr aig.”

## FY ANWYL FAM.

Fy anwyl, fy hen fam,  
 Paham,  
 Ar ol i'th farwol ran  
 Am flwyddi orffwys dan  
 Briddellau oer y llan,  
 Y mae dy adgo  
 Yn gwneyd i'm calon gan  
 Ei phoen ymsuddo.

Fe gollais dyner fam  
 Pan fuost farw,  
 Ond och, nid dyna'r pam  
 Yr wyf mor arw ;  
 Gwyn fyd na bai ond hyn  
 I friwio'm hysbryd syn,—  
 Na bai fy mhoen ond llyn  
 O ddaerau hiraeth  
 Am serch nad oes a'i pryn  
 I'm profiad eilwaith.

Fy mam, nid am y serch  
 A gollais felly,  
 Ond am y gofid erch  
 A berais iti,  
 Y mae fy adgof prudd,  
 Megis rhyw wermod cudd,  
 Yn chwerwi nos a dydd,  
 Felusder bywyd,  
 Nes gofid-lwydo grudd  
 Rhosynaidd ienctyd.

Pan gynt ar fronnau'th fam  
 Dy gred a sugnaist,  
 A'r rheswm dyrys pam  
 Erioed ni fynnaist ;

Digon, er dy foddhad,  
 Oedd fod dy fam a'th dad  
 Yn credu'n ddiacac  
 Yr hyn a ddysget,—  
 Dymuno sicrhad  
 Pellach, nis gallet.

Uwch gair dy Dduw ni ddaeth  
 Erioed i'th flino  
 Un anesmwythdra gwaeth  
 Na methu'i gofio ;  
 'Roedd popeth iti'n glir  
 O fewn y gyfrol bur,  
 A methaist weled tir  
 Tywyllwch yno,  
 Lle mae pob gair yn wir  
 Yn ol dy gredo.

Felly, yng ngrym dy ffydd  
 Gref a phlentynaidd,  
 Ti ellaist yn dy ddydd  
 O drallod trymaidd,  
 Ymgynnal dan ei bwys,  
 A dioddef cystudd dwys  
 Am hir mewn gosteg glwys ;  
 A phennaf elw,  
 Pan ddoist i ben y gŵys,  
 Ti fedraist farw.

Ond, er im sugno maeth  
 Dy fron yn blentyn,  
 Nis gellais yfed llaeth  
 Dy grefydd wedyn ;  
 Rhyw anorffwysra am  
 Y "pa fodd" a'r "pa ham"  
 A'm gyrrodd i, ar gam  
 Fe allai, i grwydro

Ymhell o gred fy mam  
A'r heddwch yno.

Diau nas gallaf fi  
Byth lawn amgyffred  
Ddyfnder dy drallod di,  
Fy mam, wrth weled  
Y mab, y cefaist fyd  
I'w fagu'n anwyl cyd,  
A'r hwn oedd yn y byd  
Dy bennaf obaith,  
Yn colli ei enaid drud  
Ym mhwill amheuaeth.

Ond nid o'th ochr di  
Y bu'r holl alaeth,  
Ond cyfiawn gefais i  
Fy nghyfran helaeth.  
I'th ereill blant nid oes  
Ond adgof am dy oes  
O gariad, er pob croes  
Ddaeth i'th gyfarfod,—  
Hiraeth yw'r unig loes  
Sydd yn eu trallod.

Ond mwy dy rodd i mi—  
Rhoist i mi alaru  
Nas gallaf byth i ti,  
*Byth mwy*, ad-dalu  
Dy serch, na gwneuthur iawn  
Yn rhagor am y cur  
A berais iti 'n hir,  
Na dwyn i'th adfyd  
Addfedrwydd teimlad llawn  
Hafddydd fy mywyd.

Ac O, nis gellais chwaith  
Ddim dangos iti,  
Cyn cyrraedd pen dy daith,  
Fod modd cyflawni  
Ein dyled yn y byd,  
A chofio Duw bob pryd,  
A charu â'n holl fryd  
Ddynolryw hefyd,  
Heb eto gredu i gyd  
Hen wersi'r aelwyd.

Ond fe ddaw eto ddydd  
Pan yr anghofiwn  
Bob anghydsyniad prudd  
Am beth a gredwn :  
Nid oes yn nefoedd Duw  
Un cyffes ffydd yn byw,  
Cariad yn unig yw  
Y gyffes yno ;  
Ninnau gawn yno'n wiw  
Dros byth gytuno.





## FY NHAD.

Fy nhad, anwylaf riant ! deunaw mis  
 Sydd bellach wedi treiglo er pan welsom  
 Dy wyneb llydan, llariaidd, dan y chwys  
 A frys-fynegai angau ; er pan roisom  
 Dy gorff lluddedig mewn gorffwys-fan is  
 Daearen hoff Llanaber,—llu o honom  
 Oedd iach a heinyf pan y'th gollsom di ;  
 Sydd erbyn heddyw yn y beddrod du.

Mor hawdd yw gennyf gofio am y pryd,  
 Pan mewn addfedrwydd dyndod a mwynhad  
 O iechyd llon a chwarddai yn dy bryd,  
 Yr elit oddiamgylch heb nacad,  
 Na chysgod pryder yn cymylu'th fryd,  
 I fwyn gyflawni dyledswyddau tad,—  
 Ymchwyddai'th fron bryd hynny gan obeithion  
 Dyfodol gwell, a henaint llawn cysuren.

Ond gwell fa'i gennyf fi i'r dyddiau hyn  
 Ymgolli o fy meddwl, nid yw'r adgof  
 Am danynt ond yn chwerwi'r teimlad syn  
 Sydd ar adegau bron a'm gyrru'n wallgof,  
 Pan gofiat eto am y dyddiau blin  
 Fu raid it' brofi gwedyn, riant gwiwgof,—  
 Y byd yn gwgu, amgylchiadau'n pallu,  
 Dy nerth yn mynd, a'th fynwes yn ymdorri.

Er iti'n hir a llwyr gyflawni'th ran  
 Ar wyll chwareufwrdd bywyd, er fod iti  
 Anwyliaid ffyddlon i'th ddyddanu pan  
 Yn loesion profedigaeth ; er it allu  
 Am ennyd fer yn gryf ymgynnal dan  
 Y baich o boen a'th lethodd wedi hynny,  
 Rhy dyner oedd dy ysbryd a theimladwy,  
 A'th unig noddfa yn'r ysturm oedd—*marw!*

Pan welaist gynlluniadau hoff dy oes,  
 Oedd weithian yn eu blodau, wedi gwywo ;  
 Pan orfu it adael fyth y llannerch dlos  
 Lle gobeithiesit mewn tawelwch dreulio  
 Prydnawn dy fywyd ; pan yng ngrym dy loes—  
 Y gwelaist hen gyfeillion yn dy ado, —  
 Dy ysbryd mewn dwfh alaeth a ymsuddodd,  
 A'th galon gan ei gofid a ymrwygodd.

Ac eto, yn dy gystudd maith a châs,  
 Mor ymostyngol fyddai'th wedd bob pryd,  
 Amynedd plentyn Duw trwy'th lygad glas  
 Belydrai mewn gogoniant mwy o hyd ;  
 Ynghanol dy bangfeydd y'th nerthai gras  
 I dawl ddwyn dy gyfran yn y byd ;  
 Dy boen o'th fron ddirwasgodd lawer gruddfan,  
 Ond nid, mewn pedwar mis, un lleied cwynfan.

Wrth wyllo'th wely angeu, O fy nhad,  
 Gwelais mor hawdd, mor anhawdd peth yw  
 marw ;

Mor *hawdd* am wynfyd pur y nefol wlad  
 Cyfnewid drwg y byd a'i droion chwerw ;  
 Mor *anhawdd* gadael gwraig a theulu mad  
 I syllu trwy eu dagrau mwy ar welw  
 Wynepryd tlodi, pan na byddai eilwaith  
 Dy gymorth parod di i'w droi ef ymaith.

Anhawdd iawn, iawn, oedd ymryddhau o-dynn  
 Afaelion hen gymdeithion deugain gwanwyn,—  
 Y meusydd hoff, y defaid ar y bryn,  
 Yr adar garet wrando pan yn blentyn,  
 Y dydd a'r nos,—harddwch y cwmwl gwyn,  
 Lleuad, a ser, a haul,—O gloew'r deigrlyn  
 Ymlwybrai hyd dy rudd wrth weled ola'  
 Belydryn haul yn gwenu ar dy boenau.

Ond rhaid fu mynd. Byth nid anghofia'r boreu

Y codais, wedi cysgu dim ond awr,  
I gael fy hunan heb fy rhiant goreu—

O gystal a fuasai gen i'n awr,  
Pe mai myfi a offrymasai angau

Gan mor ddyryslyd popeth ar y llawr ;  
*Dy* nerth allasai'n hir i eraill weini,  
*Fy* nerth sy'n mynd mewn ameu ac ymboeni.


Dy ffydd, fy nhad, oedd wedi hir galedu  
Yng ngwres a gwyntoedd bywyd, ond myfi  
Adewaist mewn anwybod beth i'w gredu,  
Nid oedd im gysgod dan dy gyffes di ;  
Rhy gyfyng oedd a thywyll im, bryd hynny,—  
Ac e'to adgas gan fy enaid i  
Rewdir anffyddiaeth ; felly er fy alaeth  
Di-loches wyf yn niffaeth dir amheuaeth.


O llawer gwyllnos hoff y bum erioed,  
Heb arall gwmni gennyf ond distawrwydd  
Afonig, neu ysbrydiaeth ddwfn y coed,  
Yn synfyfyrio'n bruddaidd ar ansicrwydd  
Popeth daearol—bywyd brau ac oed,  
Ffrwyth wedi hau, gwynfyd ar ol enbydrwydd,  
Byw'n iawn, pa beth *sydd* iawn, pa fodd cysoni  
'R hyn ddylai fod a'r hyn sydd yn bodoli.

Mynych a dwys ddymunais, pan fy hun  
Yn methu gweld trwy'r caddug erch ond  
cysgod

Dyfodol adfyd im a dyddiau blin,  
Am iti ddod yn ol pe ond am ddiwrnod,  
A'm cymryd eto'n blentyn ar dy lin,  
I wneyd yn eglur i'm ddirgelwch hanfod,  
A chymorth trwy'th oleuni o fyd arall  
I farnu a chredu'n iawn, fy rheswm cibddall.

Ond ofer hyn. Nid oes o dan y ne  
I'm llygaid i ond tw'llwch, tw'llwch, tw'llwch,  
Yn ol a blaen, ar aswy ac ar dde,  
Uwchben, islaw, dirgelwch ar ddirgelwch !  
Minnau yn palfalu heb wybod i ba le  
Y trof i ddisgwyl toriad gwawr diddanwch.  
Ffarwel fy nhad ! Os na chaf yma hedd,  
Caf hynny fel cêst dithau, yn y bedd.





### III.—TELYNAU ERAILL.

#### Y CARCHAROR A'R WENOL.

*Efelychiad o'r Ffrancaeg, 1876.*

**W**ENNOL addfwynaf sydd  
Yn hofran oddiamgylch prudd  
Gell fy ngharchardy,  
Hed, wennol, heb ddim braw,  
Hed yma i fy llaw,  
I'm dy groesawu!

Ble daethost, wennol fwyn?  
Pwy archodd iti ddwyn  
Gwawl i'm trueni?  
Gydymaith swynol syw,  
Ddost ti o'r mynydd gwiw,  
Lle gynt y bum i yn byw,  
Lle ces fy magu?

Ddost ti, fy ngwennol ddu,  
O ardal bell a chu  
Yr adyn gorlwyd?  
Angel a'r edyn ter,  
Dywed ryw newydd per  
Am yr hen aelwyd.

## BEDDAU Y TEULU.

*"Graves of a Household" Mrs. Hemans.*

**M**AWN harddwch a gwynfyd y tyfent ynghyd,  
 Un cartref a lanwent â llonder ;  
 Eu beddau sy ar wasgar dros bedwar cwr byd,  
 Ger mynydd, ger eigion, ger aber ;  
 Yr un fam a blygai yn serchog uwchben  
 Eu gruddiau rhosynaidd tra'n hepiant,—  
 Ei blodau oedd yno'n gauedig o'i blaen—  
 Ple mae ei breuddwydwy'r yrwan ?  
 Yn nhrwchus goedwigoedd Amerig un sydd  
 Yn huno ger dyfnffrwd dywyllaidd,  
 Yr Indiaid a wŷr am ei orffwys-fan cudd  
 Dan gysgod y cedr cadarnaidd.  
 Yr eigion glas, unig, i'w fynwes gadd un  
 Ar wely o berlau i orwedd,—  
 Anwylyd pawb ydoedd, ond ni chaiff yr un  
 Byth wylo uwchben ei ddis'aw-fedd.  
 Syrthiodd un lle'r ymddyrrha y gwinwydd yn llon  
 Goruwch y lladdedig urddasol,  
 Ei faner a blygodd oddiamgylch ei fron  
 Ar gadfaes Yspaenaidd gwaed-ruddol.  
 Ymhlith blodau'r Eidal y gwywodd y ferch,  
 Yr olaf o'r teulu mad tirion,  
 A'r myrtwydd dywalltant ddail peraidd eu serch  
 Uwch ei hannedd, wrth arch yr awelon.  
 Ac felly, ar wahan, y gorffwysa rhai fu'n  
 Cydchwareu dan gangau yr helyg,  
 Fu foreu a hwyr yn gweddio'n gytun  
 Wrth lin yr un famaeth barchedig ;  
 Y rhai â'u teg wenau siriolent y ty—  
 A lonnent yr aelwyd â chanau ;—  
 Ow ! druan o gariad os nad oes i ni,  
 O fyd, ond tydi a'th deganau !

## ER UNDYN A PHOPETH.

*(Cyfieithiad o gân Burns, "For a' that.")*

**P**WY byth na feiddia fod yn dlawd  
Os bydd ei dlodi'n onest?

Pwy ond y llwfr sy'n ofni gwawd  
Dirmygus feibion gloddest?

Er undyn a phopeth,

Ein dinod waith a phopeth,

'Dyw'r enw ond yr argraff-lun,

Y DYN yw'r aur er popeth.

Beth os mai uwd ein cinio prin?

Beth os mai llwm ein brethyn?

Ca'r ffwl ei wisgoedd heirdd a'i win,

Ond nid *dyn* mo'no wedyn;

Er undyn a phopeth,

Eu coegni gwych a'u popeth,

Mae'r dyn tlawd, os gonest yw,

Yn uwch ei ryw er popeth.

'Dyw'r 'sgogyn acw yn ei blas,

Er sythed ar ei sawdl,

Ac er mor aml gwenau'i was,

Ond penbwl wedi'r cwbl;

Er undyn a phopeth,

Ei ruban, sêr, a'i gwbl,

Y meddwl anibynnol chwardd

Mewn gwawd uwchben y cwbl.

A'i anadl gall brenin greu

Marchogion ac arglwyddi,

Ond gwneuthur un dyn gonest sy

Ymhell uwchlaw ei allu;

Er undyn a phopeth,

Eu hurddau gwag a'u cwbl,

Mae synwyr pen, a haeddiant bron,  
 Yn urddas uwch na'r cwbl.  
 Gweddiwn nionau am y dydd  
 Pan fyddo gwir ragoriaeth  
 Drwy eang gyrrau daear rydd  
 Yn meddu y flaenoriaeth ;  
 Er undyn a phopeth,  
 Mae'r dydd yn dod drwy bopeth,  
 Pan bydd trigolion byd fel un  
 Yn frodyr cun er popeth.

---

 ANERCHIAD LLYWELYN

I'w fyddin foreu brwydr Buallt, 1282.

(*Efelychiad o "Scots wha hae" Burns*).

**G**HWI Frythoniaid dewr fu'n gwaedu  
 Dros eich gwlad, dros ryddid Cymru,  
 Croeso'n awr i'ch gwaedlyd wely  
 Neu anrhydedd rhyth !  
 Dyma'r adeg wedi dyfod !  
 Dacw'r gelyn,—Gymro cyfod !  
 Lladd heb arbed yn dy arfod  
 Tra bo ynnot chwyth !  
 Dacw'r dreisiol giwed !  
 Saeson a chaethiwed !  
 Awn yn llu ymlaen yn hy'  
 Heb ofni dim o'u niwed ;  
 Pwy i Walia fydd yn wadwr ?  
 Pwy all lenwi beddrod bradwr ?  
 Nid Llywelyn eich cydwladwr,  
 Nage, O filwyr byth !  
 Gan eich gwlad a'i gorthrymderau,  
 Gan eich meibion mewn cadwynau,



Gyda phur-waed ein calonnau,  
 Prynwn eu rhyddhad!  
 Pwy dros ryddid na ddadweinia  
 Gleddyf anibyniaeth Gwalia?  
 Pwy dan lyw y faner yma  
 Nad ymruthra i'r gad?  
 Wŷr, cymerwn galon,  
 Byddwn wych ac eon,  
 Cwypa trais, pan syrthio'r Sais,  
 Medd llais cydwybod Brython;  
 Rhyddid Gwynedd sydd yn galw  
 Am ewynau nerth y derw,  
 Henffych angeu, os mai marw  
 Wnelom dros ein gwlad.

## Y FERCH O'R FRONGALED.

*Efelychiad o "Highland Mary" Burns.*

**G**HWI fryniau a llethrau a ffrydiau sy  
 Oddiamgylch hen gastell Cors Gedol,  
 Eich coed byth fo'n wyrddion, a'ch blodau 'n gu,  
 A'ch dyfroedd yn glaer a dylifol;  
 Yr haf yno 'n gyntaf lledaened ei swyn,  
 Ac yno yn olaf arhosed,  
 Can's yno ffarweliais yng nghysgod y llwyn  
 Ddiweddaf a merch y Frongaled.  
 Mor las y blagurai y fedwen der,  
 Mor wych ydoedd blodau 'r drain gwynion,  
 Tra yno mewn hedd yn eu cysgod per  
 Y gwasgwn fy mun at fy nghalon;  
 Ar edyn angylaidd yr oriau dihun  
 Ehedent heb imi ystyried,  
 Can's anwyl i'm henaid fel bywyd ei hun  
 Oedd cwmni y ferch o'r Frongaled.

'Nol mynych adduno cyfarfod drachefn,  
 A thyner gofleidio ein gilydd,  
 Rhaid fu dryllio rhwymau cymdeithas mor lefn,—  
 Byth, byth i gael profi ei heilfydd ;  
 Na, rhewynt yr angeu a wywodd cyn pryd  
 Flodeuyn fy serch, er ei hoffed,—  
 Glas heddyw'r dywarchen, a fferllyd y pridd  
 Amdoa y ferch o'r Frongaled.

O gwelw'r gwefusau oedd gynt fel y rhos,  
 Gusenais i ganwaith mor hoffus,  
 A thywyll yn angeu y drem ddisglaer dlos  
 Edrychai gynt arnaf mor serchus ;  
 Ac oeraidd falurio yng ngosteg yr yw  
 Mae'r galon a'm carai wresoced,  
 Ond eto yn eigion fy mynwes caiff fyw  
 Hoff ddelw y ferch o'r Frongaled.

1875.



## NOS SADWRN Y GWEITHIWR.

*Cyfieithiad o "The Cottar's Saturday Night" Burns.*

Aiken, fy nghyfaill anwyl a pharchedig,  
 Nid un bardd cyflog sy'n dy warog di,  
 Elwa ar gân, ni fyn fy ngonest ddirmyg,  
 A chlod fy nghâr yw'm hoffaf wobr i.  
 Mewn syml gred y canai'n awr i ti  
 Am feib dinodedd yn eu hisel ryw,  
 Am arwedd bur, a grym teimladau cu—  
 Am beth fai'm cyfaill pe mewn bwth yn byw,  
 Mwy dedwydd yno er o barch y byd a'i glyw.

**T**ACHWEDD a'i oerwynt yn brochrudfan  
 sydd,

A'r dydd byrhaus sydd bellach ar ddibennu ;

Y wedd o'r cwysau lleidiog adre drydd,

A'r brain yn heidiau duol ânt i'w gwely,

Y llesg fythynwr ddychwel at ei deulu—

Ei ludded wythnos heno gwblha—

Cynnull ei gaib, a'i raw, a'i gribyn chwynnu,

A thros y rhos tua'i gartre'n flin yr a

Gan feddwl am y saib a'r llonydd yno ga.

Ond dacw'i fwth unigaidd draw, dan gysgod

Hen goeden frigog ; yno'i blantos glân

Ymlwybrant am y cyntaf i'w gyfarfod,

Yn llon eu dwndwr megys adar mân.

Yr aelwyd ddel, ei gadair ger y tân,

Y baban ar ei lin, a darf yn lân

Ei flin ofalon ymaith, nes y gad

Dros gof ei ludded oll, yn llawnder ei fwynhad.

Toc daw'r plant hyna'i mewn, sy'n awr ar gyflog

Mewn ffermydd ogyllch—un yn hwsmon sydd,

Arall yn fugail, arall, ffel a bywiog,

Red ar negesau'n chwynn i'r dre bob dydd,

A'u hynaf anwes, Jenny deg ei grudd,


Ym mlodau'i bri, a'i threm gan serch yn fyw,  
 Ddwg ei gown Sul i'w ddangos, neu a rydd  
 I'w mam ei dygn ennill mis, os yw  
 Ei rhiaint anwyl trwy galedi'n methu byw.


Yn frawd a chwaer llongalon y cydgrwddir,  
 A mawr yr holi am eu ffawd bob un;  
 Dont bawb a'u newydd allan, ac mor ddifyr,  
 Nad ystyr neb ehedfa'r awr ddihun,  
 Hoff sylla'u rhiaint arnynt, ac ar lun  
 Eu byw obeithion yn eu llygaid dedwydd;  
 Y fam a'i siswrn chwim a'i nodwydd, sy'n  
 Gwneyd i hen ddillad edrych bron fel newydd;  
 Y tad eneinia'r oll, â chyngor dwys neu rybydd.

Rhybuddia hwynt i wneyd beth bynnag bair  
 Meistr neu feistres iddynt, ac heb duchan;  
 Ac edrych at eu gorchwyl yn ddiwair,  
 Ac, er o'r golwg, beidio byth ystelcian,—  
 "Ac O! gofawch ofni Duw ym mhobman,  
 A gwnewch yn iawn eich dyled nos a dydd,  
 Rhag cyfeiliorni'ch traed yn llwybrau Satan;  
 Ond deisyf ganddo, pwyll a noddod rydd—  
 Ni ddychwel neb yn wag a'i ceisia Ef trwy ffydd."

Ond ust! mae rhywun wrth y drws—da gŵyr  
 Jenny pwy yw—llanc o gymydog iddi  
 Ddaeth tros y waen ar neges braidd yn hwyr,  
 Ac o gymwynas eilw'n awr i'w chyrchu.  
 Y fam gyfrwysgall wel yn llygaid Jenny  
 Dân serch yn perlio, ac yn twymo'i grudd.  
 Gofynna'i enw, a chalon ddwys a difri—  
 Ofna'r fun ateb, ond anadla'n rhydd  
 Pan glywa'i mham nad yw lanc ofer a difudd.

Dwg Jenny ef i mewn, â chroesaw mwyngu;  
 Llathraidd y llanc, dên fryd y fam heb air.





[H. Owen.]

AFON MAWDDACH.  
"Y Mawddach, fel harddwch mewn breuddwyd."

(Mor lon yw'r eneth nad oes neb yn gwgu !)  
 Ymgomia'r tad am wartheg, meirch, a gwair ;  
 Gorlifa gan lawenydd galon aur  
 Y bachgen, fel nas gŵyr i ble y try,  
 Ond gwêl y fam o'r goreu beth a bair  
 Ei fod mor swil a sobr ; boddlaw'n hi  
 Wrth feddwl fod ei merch fel eraill yn cael bri.

O ddedwydd serch, man caffer serch fel hwn !  
 O wynfyd calon ! mwyniant heb ei ail !  
 'Nol troedio'n hir gylch einioes dan fy mhwn,  
 Mynn Profiad imi ddatgan—" Os oes cael  
 Un dracht o fwynder Gwynfa is yr haul,  
 Un llymaid byw, yn nhrystyd anial dir,  
 Ceir hyn pan fo pâr ieuanc, ael wrth ael,  
 Yn gwylaidd sibrwd nerth eu cariad gwir,  
 Is blodau'r ddraenen wen, wna'n bêr yr hwyr-  
 wynt i'r."

A oes ar ddelw dyn, â chalon dyn,  
 Adyn, ddyhiryn, mor ddi-wir, mor greulon  
 All â'i ddichellion hudoledig cas, i'w wŷn,  
 Fradychu diniweidrwydd Jenny dirion ?  
 Melldith byth ar ei stryw a'i anwir lwon !  
 Ai nid oes rhinwedd na chydwybod mwy ?  
 Na dim tosturi, bwyntia'r ferch yng nghalon  
 Ei mham a'i thad—ddynoetha wedyn glwy  
 Y fun ddfwynwyd, a'u dyryswch enaid hwy ?

Ond wele'r swper ar y bwrdd yn gweitied,—  
 Yr iachus uwd, pen ymborth Alban in,  
 A llaeth y frithen sydd tuhwnt i'r pared  
 Yn diddos gnoi ei chil ; y rhian fynn  
 Ddwyn allan heno 'i darn o gosyn prin  
 O barch i'r llanc ; a mawr ei chymell arno,  
 A mawr ei ganmol yntau ; nes, ar hyn,

Nas gall hi dewi oed y cosyn wrtho,—  
 “Dwy flwydd pan y bo'r llin yn ei lawn flodau  
 eto.”

Eu swper llon ar ben, yn ddwys eu gweddau  
 Eisteddant oll yn gylch oddeutu'r tân ;  
 Y tad, âg urddas patriarch, dry ddalennau  
 Y Beibl mawr, hoff lyfr ei dad o'i flaen ;  
 Yn wylaidd dod o'r neilltu'i fonet wân ;  
 Llwm gwallt ei arlais mwy, a llwyd i gyd ;  
 O'r odlau genid gynt yn Seion lân,  
 Dewisa ran yn bwyllog, ac, a'i fryd  
 Yn llawn difrifwch, medd,—“Addolwn Dduw  
 ynghyd.”

Eu syml fawl a gathlant dad a phlant,  
 A'u calon gweiriant uwch y byd a'i ferw ;  
 Gall mai Dundee ymddyrrha'n wyllt ei thant,  
 Neu'r ddwys gwynfannus Martyrs, gwerth yr  
 enw,  
 Neu Elgin bortha fflam y nefol ulw,—  
 Y fwynaf o fawl-odlau Alban dir,  
 Ger hon, chwibganau'r Eidal ynt ond salw,  
 Ond goglais clust, nid llesmair calon wir,—  
 Ni chynghaneddant hwy â chlod ein Crewr pur.

Y tad-offeiriad draetha'r Gair dilyth,—  
 Fel ydoedd Abram gân ei Arglwydd rhad ;  
 Neu'r archodd Moses ryfel brwd dros byth  
 Yn erbyn Amalec a'i greulawn had ;  
 Neu fel bu'r bardd brenhinol, am ei frad,  
 Yn ochain is dyrnodiau dial Duw ;  
 Neugŵyn deimladwy Job, o'i waew-nâd ;  
 Neu dân seraffaidd Esay dderch, neu ryw  
 Lân broffwyd arall dantia'r santiaidd delyn wiw.



Ef all mai cyfrol Crist yw'r testun mawr,—  
 Fel collwyd, tros yr euog, waed y gwirion ;  
 Fel nad oedd yma le i roi' ben i lawr,  
 Gan Un fawrygid Ail gan lu'r nefolion ;  
 Ffyniant ei weision gynt, a'r doeth hyfforddion  
 Yrasant hwy i lawer gwlad a thref ;  
 Neu fel y gwelodd alltud Patmos aflon  
 Gryf angel yn yr haul, a chlywodd lef  
 Uwch bryntni Babilon fawr, yn datgan barn y nef

O flaen yr orsedd wen ar ddeulin, yna  
 Y sant, y gŵr, a'r tad mewn gweddi ddaw ;  
 Gobaith, ar orfoleddus edyn, wela  
 Ddydd pan gânt oll gydgwrddyd eto draw,  
 Yn llewyrch gwyneb Duw, heb mwyach fraw,  
 Nac ochain mwy, na cholli'r chwerw ddeigryn ;  
 Ond yno'n gwmni, hoffach fyth rhagllaw,  
 I'w Crewr mawr gydganu eu moliant dillyn,  
 Tra Amser yn ei rod yn troelli mwy heb derfyn.

Wrth ochor hyn, mor salw balchder cred,  
 A'i chelfydd rwysg i gyd, lle dengys dynion  
 I'r lliaws cynulleidfa, ar lawn led,  
 Bob cain ddyhewyd ond dyhewyd calon ;  
 Duw yn ei lid a edy eu rhith ddefodion,  
 Eu canu coeg, a'u gwisgoedd hyd y llawr ;  
 Ond odid fawr y clyw— a'i fryd mor foddlon !—  
 Mewn bwthyn iaith yr enaid lawer awr,  
 A'u henwau gwael yn Llyfr y Bywyd ddod i lawr.

Pawb yna'u llwybr adref a gymerant  
 A'r bwthiaid bychain ânt i'w gorffwys le ;  
 Y rhiant-bâr eu dirgel warog dalant,  
 A chynnes iawn eu cais am iddo E',  
 Sy'n gosteg beunydd nyth y gigfran gre',  
 Sy'n harddu eirian wisg y lili wen,—

Yn ol fel gwel E'n oreu, ddarbod lle  
 A lluniaeth iddynt hwy a'u plant di-senn,  
 Ac yn eu mynwes byth trwy ras deyrnasu'n ben.

Mawredd hen Alban dardda o'r ffynhonnau hyn,  
 A serch ei phlant, a pharch yr es'ron ati,—  
 "Dyn gonest yw gorchestwaith Duw ei hun,"  
 Ond brenin all â chwythiad greu arglwyddi;  
 Yn llwybr Rhinwedd dlos diau y gedy  
 Y Bwthyn draw o'i ol y Palas gwiw,  
 Rhwysg pwt o arglwydd—beth ond baich i'w  
 boeni?

Baich gel yn aml warthyn dynol ryw,  
 Ystig a llwyr ei ddysg ymhob uffernawl 'stryw.

O Alban anwyl, bro fy ngenedigaeth,  
 Fy nhaeraf gais i Dduw sydd erot ti;  
 Bendithier fyth dy lewion feibion amaeth  
 Ag iechyd, heddwch, a boddlondeb cu;  
 A'u syml fuchedd, O gwarchoder hi  
 Rhag haint andwyol gloddest,—yna aed  
 Yn deilchion mân bob coron, urdd, a bri;  
 Ymgyfyd uniawn werin eto'n gâd,  
 A saif fel mur o dân o gylch eu hynys fâd.

Tydi arllwysaist gynt y gwladgar lif  
 Trwy eon galon Wallace, pan gyhyd  
 Y baidd yn deg wrth ymladd gormes hyf,  
 Neu fario'n deg ei nesaf gyfran ddrud  
 (Duw agos y gwladgarwr Di bob pryd,—  
 Ei ffrynd, ei nawdd, ei annog, ei foddhâd).  
 Rhag Alban byth, O, byth na chilia'th fryd,  
 Ond cyfod fwy y gwladgar ŵr diwâd,  
 A'r gwladgar fardd i fod,—addurn a grym eu  
 gwlad.

## CÂN SERCH.

*Horas, Llyfr III., Cân 9.*

MORGAN.

TRA'R oeddwn i eto yn anwyl i ti,  
 'Doedd neb ar y ddaear ddedwyddach na mi;  
 Tra am dy wddf clauerwyn na phlethai un fraich  
 Mwy hoffus, 'doedd bywyd ddim eto yn faich;  
 Blodeuwn yn decach, yn falchach fy mhryd  
 Na theyrn gorfalch China, na dyn yn y byd.

GWEN.

A minnau, tra'r oeddwn yn anwyl i ti,  
 'Doedd neb ar y ddaear ddedwyddach na mi;  
 Tra nad oedd dy fynwes yn llosgi yn fwy  
 Am arall, O Morgan, na'th galon yn ddwy,—  
 Blodeuwn yn decach, yn falchach fy mhryd,  
 Na Buddug ei hunan, na merch yn y byd.

MORGAN.

Ond Jane y Fronheulog sy'n awr wedi dwyn  
 Fy nghalon dan ormes drwy nerthoedd ei swyn;  
 Ei llais sydd fil mwynach na miwsig y nant,  
 A'i dwylaw sydd hefyd yn fedrus ar dant;  
 A throsti yn llawen disgynnwn i'r bedd,  
 Er cadw o'r nefoedd yn ddiogel ei gwedd.

GWEN.

Ac Edward y Gorllwyn, fy llencyn dinam,  
 Sy'n toddi'm bron innau â'i gariad fel fflam;  
 Nid oes ei serchocach, nid oes ei fwy mad,  
 Nid oes ei ragorach mewn tref nac mewn gwlad;  
 A throsto ef ddwywaith disgynnwn i'r bedd,  
 Er cadw o'r nefoedd yn ddiogel ei wedd.

MORGAN.


Ond beth pe dychwelai'r hen serch yn ei wres?  
 Ac uno'n calonnau â gefyn o bres?

A dychwel o fwyniant yr hen amser gynt?  
 A pheth pe gollyngid i fynd gyda'r gwynt  
 Y ferch a'r pen melyn, er agor y drws  
 I ti unwaith eto, fy nghalon fach glws?

GWEN.

Er fod fy anwylyd yn harddach na'r ser,  
 A'i wenau mor hawddgar, a'i eiriau mor bêr,  
 Ac er dy fod dithau 'n fwy diwerth na dellt,  
 A'th natur yn wylltach na flachiad y mellt,  
 Er hyn, gyda thi y dymunwn gael byw,  
 A chyda thi farw, os boddlon gan Dduw.

1876.





#### IV.—MARY.

##### Y CARIAD CUDD.

**S**WN am forwyn-ferch lân,  
Wen fel yr eira mân,  
Hon ydyw baich fy nghân—  
Hon yw fy awen ;  
Callach ei meddwl clir,  
Coethach ei hyspryd gwir,  
Cuach ei chalon bur,  
Nis gwelodd Eden.

Angel breuddwydion nos,  
Seren gobeithion oes,  
Ydyw y feinwen dl s—  
Eilun dymuniad ;  
Er hynny fy nghariad sydd  
Megys dan lenni cudd,  
Heb eto weled dydd  
Dydd ei ddatguddiad.

Fel y porphora pryd  
Tân-wridog haul y byd  
Gymyl y nef i gyd  
Ar ffoad gwyllnos,

Felly addurna swyn  
 Delw y lodes swyn  
 Holl awyddiadau twymn  
 Gwanwyn fy einioes.

Dyfnaf yr eigion man  
 Glasaf ei donnau bann,  
 Tecaf ei arliw pan  
 Bella'i waelodion ;  
 Felly arddengys lliw  
 Dulas ei llygaid gwiw  
 Ddyfnder serchiadau byw  
 Dyfnder ei chalon.

Megys planhigyn breg  
 Guddir rhag gwenau teg  
 Heulwen a moethau chweg  
 Serch yr awelon ;  
 Eiddil ac egwan yw,  
 Nychlyd ei wedd a gwyw,  
 Methu o'r bron a byw,  
 Lysieuyn tirion.

Felly fy nghariad i  
 Heb lewyrchiadau cu  
 Gwres ei serchowgrwydd hi,  
 Gwenau ei gwyneb ;  
 O na chawn bêr fwynhau  
 Beunydd ei chwmni clau,  
 A byw byth i'w boddhau,  
 Ddelw tlysineb.

## CUSAN CYNTAF CARIAD.

**Y**N y pant is law y Gorllwyn,  
 Ar brydnawnddydd yn y Gwanwyn,  
 Y disgynnodd gynta rioed  
 Gusan cariad yn ei draswyn  
 Ar fy ngwefus bymtheg oed,  
 Fel y gwllith ar y coed ;  
 Nid mewn mwyniant nac mewn alaeth,  
 Nid yng nghyfyng awr marwolaeth,  
 Nid tra 'm henaid mewn bodolaeth,  
 Yr anghofia 'r pryd a'r llwyn,  
 Man y profais gyntaf odiaeth  
 Fin fy ngeneth fwyn.  
 Dan y dderwen las dywyll-frig,  
 Yn swm odlau per afonig  
 Yr eisteddem ar y glân  
 Laswellt a'r blodeuos mân,  
 Mewn ymddiddan melus diddig ;  
 Pur a gwresog fel y tân  
 Oedd ein calon ni bryd hynny,  
 Tyner fel y briail o'n deutu,  
 Heb na'i suro na'i chaledu  
 Gan oerwyntoedd blwyddi hŷn ;  
 O na byddem felly eto  
 Mor ddedwydd ac mor gun.  
 Cydiais yn ei llaw angylaidd,  
 Gwasgodd hithau 'n ol yn fwynaid,  
 Yna rhuthrodd idd ei phryd  
 Dâni ei henaid yn ei gwrid.  
 Dyblu wnaeth curiadau euraidd  
 Ein mynwesau 'nghyd.

*Anorphenedig. 1876.*  
*[Flynyddoedd wedyn, pan yn dihoeni mewn alltudiaeth,*  
*gorphennodd y gân fel hyn,—]*

Am ei gwddf fy mraich a blethais,  
 Min at fin yn fwyn a dynnais,  
 Ac ym myw ei threm edrychais,  
     Yna,—beth, O Awen gu?  
 Nid oes ateb. Mud yw'r Awen,  
     Mud uwchben a fu.

Eto ganwaith pan yn gwylio  
 Tegwch dydd o'r nen yn cilio.  
     Ar edyn cof angyles ddaw  
     I'm cyfeillach oddidraw,  
 Eistedd eto wrth fy ochr,  
     Gwasga eto'm llaw;  
 Ac a'r deigr yn ei llygad,  
 Ac a'i gwedd yn llawn o gariad,  
 Lleddfa bwys fy mynwes egwan,  
     Par i'm calon guro'n rhydd,  
 A chyn ffarwel dyry gusan  
     Eto ar fy ngrudd.

Beth daearol na ddirymir?  
 Pa swyn adgof na ddifwynir?  
     Cartref mebyd, ffrindiau fu,  
     Hoff brydfertion Gwalia i mi;  
 Mwswg amser arnynt welir  
     Mwyach ar bob tu.  
 Ond nid mewn mwyniant nac mewn alaeth,  
 Nid yng nghyfyng awr marwolaeth,  
 Nid tra'm henaid mewn bodolaeth  
     Yr anghofia'r awr a'r llwyn  
 Man y profais gyntaf odiaeth  
     Fin fy ngeneth fwyn.



## MARY, ANWYL MARY

**M**ARY, anwyl Mary,  
 Mary, a wyt ti,  
 Tra 'rwy 'mhell, yn cofio  
 Weithia 'm danaf fi?  
 Wyt ti yn cysegru  
 Munud, ambell ddydd  
 I feddyliau serchog  
 Am dy gyfaill prudd?  
 Pan ar uchder mwyniant,  
 Feinwen deg dy lun,  
 Fyddi di 'n dymuno  
 Rhan o hono i un  
 Sydd yn gorfod teithio  
 Dyfnder gwaeau byd,  
 Heb un llewyrch cysur  
 I sirioli 'i bryd?  
 Pan ynghanol ffrindiau,  
 Yr ysgafna'th fron,  
 Pan ymdyrr dy nwyfiant  
 Mewn chwerthiniad llon,  
 Wyt ti weithiau 'n meddwl  
 Am y gwyneb llwyd  
 Unig, sydd a'i ddagrau  
 Beunydd iddo'n fwyd?  
 Pan wrth synfyfyrion  
 Rydd dy galon lam,  
 Gan ymdeimlad meddu  
 Cariad tyner fam?  
 Fuaist ti 'n tostrurio  
 Wrth un nad oes mwy  
 Dad na mam i'w garu?  
 Huno er's talm maent hwy.

Hwyrach mai dy ateb  
 Fydd "Nac ydwyf ddim,"  
 Ac ni byddai hynny  
 Ond syndod bychan im ;  
 Caru heb fy ngharu,  
 Cofio ffrindiau cu  
 Sydd yn fy anghofio—  
 Dyna 'm tynged i.

Eto credu 'r ydwyf  
 Nad yw'm calon i  
 'N curo'n gwbl ofer  
 Tuag atat ti,—  
 Fod yn gefn i'th eiriau  
 Mwynion, sylwedd serch,  
 Ac o dan dy wenau  
 Burdeb mynwes merch.

Mary, anwyl Mary,  
 Nid heb achos teg  
 'R ydwyf yn dy garu  
 'N fwy nag anian chweg,  
 Yn fwy na pherthynasau,  
 Brawd a chwiorydd mad,  
 Ac yn fwy nag adgof  
 Tyner fam a thad.

Nid dy gysylltiadau  
 Parchus yn y byd ;  
 Nid dy olud teilwng  
 Sydd yn mynd a'm bryd,  
 Nid dy liw iforaidd,  
 Nid dy lendid gwedd,  
 Wnaeth i'm benderfynu  
 'Th garu hyd fy medd.

Ac nid swyn dy lygad,  
 Dy loew lygad du,  
 Yn unig sy'n dy wneuthur  
 I fy mron mor gu,—  
 Nodau heb ddim ystyr  
 Ydyw rhain i gyd,  
 Rhywbeth arall dyfnach  
 Sy'n eu gwneyd mor ddrud.

Calon, ie, calon,  
 Dyna 'n unig rydd  
 Ystyr i brydferthwch  
 Fel yr haul i'r dydd;  
 Hebddi nid yw Helen  
 Er mor hardd, yn dlos;  
 Ac ofer cynnyg yn ei lle  
 Aur, na dysg, na moes.

Swyn dy galon dithau  
 Serch dy hoffus fron,  
 A'r tiriondeb chwârdda  
 Yn dy wyneb llon,  
 D' allu i fod yn ddedwydd  
 Gan mor buraid di,  
 A'th anghyffelybrwydd  
 Ymhob peth i mi,—

Hyn, a mwy, sy'n peri  
 Fod dy ddelw di  
 Bellach yn cartrefu  
 Yn fy nghalon i;  
 Nid dod yma wnaeth hi fel.  
 Y wennol ar ei thro,  
 Ond i nythu'n wastad  
 Fel aderyn to.

Er mai drwy afonydd  
Mae fy ffordd i fynd,  
Er y rhaid anghofio  
Cariad llawer ffrynd ;  
Eto tra 'n fy mhabell  
Trig y fywiol chwyth,  
Gwyneb anwyl Mary Ann  
Nid anghofiaf byth.

*Ionawr, 1878.*



## BETH YW'R GYFAREDD.

**B**ETH yw'r gyfaredd sydd  
 Fel breuddwyd nos a dydd,  
 Yn dwyn fy meddyliau prudd  
 Oddiwrth fy hunan?

Pam neidia'm calon gan  
 Lawenydd dieithr pan  
 Acenir enw Ann  
 I'm clust ar ddamwain?

Pam yr ymchwydda'm bron,  
 Megys terfysglyd don,  
 Tra'n syllu ar ddarlun hon  
 Ymhell yn Lloegr?

O Mary Ann, fy mun,  
 Mil haws im anghofio f'hun  
 Na byth im anghofio llun  
 Dy wyneb hawddgar.

Ond aethus im yw dw'yd,—  
 Fy mun nid mwyach wyd,  
 Ti decaf blentyn nwyd,  
 Er pob dymuno ;  
 Arall sydd yn mwynhau  
 Weithian dy gwmni clau,  
 Arall yw'r un y mae  
 Dy galon arno.


Swynion hen ddyddiau fu,  
 Myrdd o adgofion cu,  
 Ac aml i drallod du,  
 Sydd wedi cysegru  
 Man puraf fy nghalon i  
 Yn annedd i'th ddelw di,  
 Nes, bellach, dy adgof sy  
 'N gyfran o honi.

Edrych ymlaen ar oes,  
 A'i haml chwerw loes,  
 A'i mynych awel groes,  
     A'i throion garw,—  
 Heb dy gymdeithas di,  
 Sy'n gwasgu o'm henaid li  
 O ddagrau, ac weithiau gri,—  
     "O na bawn farw."

Eto, tra ynnwyf chwyth,  
 Mi'th garaf yn ddi-lyth,  
 Er nad yw fy nghalon byth  
     I'th feddu efallai ;  
 Er fod iddo lanw a thrai,  
 Gwir gariad sy'n parhau  
 Fel yr eigion yn ddi-lai  
     Drwy bob newidiadau.


Fy hoffaf ddymuniad yw,  
 Fun anwyl, ar it gael byw  
 Teg flwyddi tan nodded Duw,—  
     Boed iti'n gyfran  
 Holl oreubethau byd,  
 Heb eu mil boenau 'nghyd,  
 A nefoedd dawel glyd  
     Fyth yn orffwysfan.

*Chwef. 1877.*



Faint, illegible text or markings located below the rectangular outline.





LLWYN GLODDAETH.  
Afon Mawddach odditanodd, Cader Idris tu hwnt.



## I FLODEUYN YR EIRA.

**S**OFF flodeuyn ! wiw flodeuyn !  
 Sy'n addurno bedd y flwyddyn,  
 Sydd yn nyfnder gauaf du  
 Mor ddyhuddol ac mor gu,  
 Yn dy symledd, lán lysieun,  
 Beth mor deg a thydi ?  
 Wrth i'm sylu ar dy wynder,  
 Genir yn fy meddwl lawer  
 O freuddwydion prudd a thyner  
 Am ryw ddyddiau fu.

Peraroglai llawer blodyn  
 Euraidd oriau mis Mehefin,—  
 Hyd y dolydd breision, blydd,  
 Chwarddai llygad teg y dydd,  
 Gwenai'r friall, gwridai'r rhosyn  
 Gan mor gain ar y gwydd.  
 Ond fe'u gwywodd oerwynt Medi—  
 Nid oes mwyach ond dy dlysnï  
 Di yn unig i sirioli  
 Gwyneb anian brudd.


Hoff flodeuyn ! wiw flodeuyn !  
 Nid yw gwawr dy burdeb dillyn  
 I'm dychymyg ond arwyddlun  
 O ryw fenyw hawddgar fwyn  
 Lawn o synwyr, lawn o swyn,  
 Sydd a'i hysbryd fel aderyn,  
 Llon ei fron yn y llwyni,  
 Gan mor anwyl yw ei chwmni,  
 Gan mor gu ei chalon imi,  
 Nid wyf mwyach yn chwenychu  
 Byw, ond er ei mwyn !

Gynt bu Ffawd yn siriol wenu  
 Ar fy mywyd, a phryd hynny  
 Aml ydoedd rhif cyfeillion ;  
 Ond daeth rhew-wynt adfyd llym  
 Arna'i chwythu yn ei rym ;  
 Yna profais chwerw loesion  
     Anffyddlondeb i'm—

Llawer cyfaill, megis blodau  
 Haf, o'm golwg a ddiplannai,—  
 Nid oedd adgof cymhwynasau  
     Mwy yn tycio dim.

Ond 'roedd imi un yn ffyddlon,  
 Un yn tywallt olew tirion  
     Ei thosturi ar fy mriw ;  
 Un a chryfder enaid morwyn  
 Yn fy ngharu, ac yn fy nilyn  
     Fyth â'i chydymdeimlad gwiw ;  
 Dyma'r pam 'rwyf yn ei charu,  
 Dyma'r pam y rhaid im wrthi,  
 Enaid enaid imi ydi  
     Mary Ann, fy mun.

1875.



## FORWYNIG LAN.

Y Siomedig—i'w Hen Gariad.

FORWYNIG lân, forwynig gu,  
 Forwynig ddirmygadwy, hefyd ;—  
 Er swyn a nerth dy lygaid du,  
 A theg osodiad dy wynepryd ;  
 Anwadal ydwyt fel y tarth  
 Sy 'n awr ar daen, ac yna 'n cilio ;  
 A chryf dy galon fel yr arth  
 Pan am ei chenaw mis yn chwilio.

Bu adeg pan y teimlwn i  
 Drydanol rym dy nefol wenau ;  
 Bu adeg pan yn ddigon hy'  
 Yr ymgofleidiem a chusanau,  
 Bu adeg pan ddisgynnai trem  
 Dy lygaid serchog arnaf finnau  
 Yn dyner fel mân wlith y nen  
 Wrth wlychu emrynt heirdd y blodau.

Bu adeg pan, yng ngwres ein serch  
 Y cyd-addunem fythol uniad,  
 Pan, gyda theimlad mynwes merch  
 Y mud-gyffeset rym dy gariad ;  
 Do, do, fe fu, ond yn y man  
 Fe wgodd nefoedd fy ngobeithion,  
 Ac yna gwelais, Mary Ann,  
 Mor fyr yw bywyd addewidion.

Ond er prydferthwch balch y bryd,  
 A'r swyn gorchfygol yn dy lygad,  
 Ac er dy safle yn y byd,  
 A'th olud, a'th drahaus ymgodiad ;  
 Cyn hir dy degwch ymaith ffy,  
 A'th gyfoeth all gymeryd aden,

Ac yna, os heb rywbeth mwy,  
 Beth bortha dy drahâ uchelben?  
 Ac er mor ddistadl fy ngwedd,  
 Yn awr, mae hyn yn gysur imi,  
 Y gallaf finnau cyn fy medd  
 O'm dinod gyflwr fry ymgodi ;  
 Rwy'n teimlo nerth i fynd ymlaen,  
 Rwy'n gwybod grym ewylllys ddifeth,  
 A sicr wyf, er dŵr, er tân,  
 Ryw dro y mynnaf fod yn rhywbeth.  
 Ond er fy mod, tra ynnof chwyth,  
 Am ddringo'n uwch mewn cyfrifoldeb,  
 Nis gallaf fi ddymuno byth  
 Ddialedd am dy anffyddlondeb ;  
 Cu iawn i'm henaid fuost ti,  
 A hoff dy ddelw eto imi,  
 Ac er mwyn adgof dyddiau fu  
 'Rwyf yn dwfn-erfyn llwyddiant iti.

1875.



## MARY, GYFEILLES HUDOL.

**M**ARY, gyfeilles hudol,  
Er nad yn fy meddiant i,  
Fy hoffaf drysor daearol  
Drwy bopeth ydwyf ti.

Mor oer yw gwresogrwydd geiriau  
Wrth angerdd mynwes lawn hoen  
Eiriaswyd mewn mil o beiriau,—  
Siomiant, a gofid, a phoen ;  
Cuddio ac oeri teimladau  
Y galon mae iaith o hyd,  
Fel y cuddia y nifwl wenau  
Heulwen oddiwrth y byd.

O Mary, na bai rhyw eiriad  
Fynegai ddyfnder fy nghlwy,  
Ddywedai mor gryf fy nghariad,  
Mor ddwys, mor ddiobaith mwy ;  
Adroddai mor ddwsn yn fy nghalon,  
Mor gymhleth â'm henaid i gyd  
Mae'th ddelw, lodes lygadlon,  
Uwch popeth arall y byd.

O na bai rhyw fodd im ddarlunio  
Fel mae pob awyddiad mwyn,  
Pob uchelgais, wedi eu trwytho  
A'u lliwio dros byth â dy swyn ;  
Pob gobaith, pob ofn, pob llawenydd,  
Pob tristwch, pob breuddwyd i mi,  
A fu ac a fydd, sydd orlawn  
O'r meddwl am danat ti.

Rhan oreu fy hanfod ydwyf,  
Tydi ydyw'r unig ran

Ohonof, nad yw ddaearol,  
 Nad yw gyfnewidiol a gwan ;  
 Ti sydd imi 'n cynrychioli  
 Ein dwyfiant dyfodol ni,  
 Ac er t'willed pa beth i'w addoli,  
 Fy eilun gwastadol wyt ti.

Mewn llawer awr o dywyllwch,  
 O drallod, a gofid di-hedd,  
 Bum yn dyheu am dawelwch  
 Di-drallod, di-ofid y bedd ;  
 Un gadwen euraidd yn unig  
 Bryd hynny a'm daliodd i'r lan,—  
 Pa fodd gadael byd cysegredig  
 I degwch a serch Mary Ann ?

Edwinodd gobeithion imi  
 Dyfasent yn nghysgod y Llwyn,  
 A threngodd gan boen fy rhieni  
 Oedd gu iawn i'm henaid a mwyn ;  
 Hen swynion oes aethant heibio,  
 A oedd mwy werth mewn bywyd ei hun ?  
 O oedd, am fod yn ei oreuro  
 Hawddgarwch digymar un.

Bythefnos yn ol yr oeddwn  
 Ger ffenestr anwyl eich ty,  
 I'r hon filwaith yr edrychaswn  
 A chalon obeithiol a chu ;  
 Dim ond pythefnos,—ac eto  
 Mor faith y diwrnodau er pan  
 Eisteddwn mewn llesmair yno  
 Yng ngrym cyfaredd y fan.

A fu i mi yw'r presennol,  
 Rwy'n byw mewn amser a fu,

Ac nid oes yn swyn y dyfodol  
 Ond adswyn dyddiau fu ;  
 A fu yw llawenydd mebyd,  
 A chariad mam a thad,  
 A heddwch meddwl, a gwynfyd  
 Meddiannu dy fynwes fad.

Wrth sylu ym myw dy harddwch  
 Gweled yr oeddwn ddedwyddwch  
 Colledig saith mlynedd yn ol ;  
 Yn wysg fy nghefn 'rwyf yn cerdded  
 Drwy fywyd ymlaen, gan, wrth fyned  
 Hiraethu am bethau ar ol.

Ond, er treiglo saith o flynyddau,  
 Yr un ydwyt ti o hyd,  
 Yr un ydyw nerth dy wenau,  
 A thlyzni gorhudol dy bryd ;  
 Dy aelau teg sydd mor dywyll,  
 Dy wddf mor wyn ag erioed,  
 A'th lygaid mor dduon, mor anwyl,  
 A phan oeddit dair ar ddeg oed.

Dy gymdeithas hyd dragwyddoldeb,  
 A thrwy dragwyddoldeb di,  
 Yn unig a wnai anfarwoldeb  
 Yn werth ei ddymuno i mi ;  
 Er hynny, ni chefais o'th gwmni,—  
 O wyrni popeth y llawr !  
 Mewn blwyddyn lawn o drueni  
 Ddim ond cwarter awr.

Fyd arall—fythol ddihangfa  
 Rhag holl anwadalwch oes,  
 Rhag gorfod ymadael mewn dagrau  
 Rhag cam, rhag enllib a'i loes ;

Ni bydd yno iai h i dywyllu  
Enaid rhag enaid dilyth ;  
Ac, O wynfyd ! ni bydd yno garu  
Yn of-r mwyach byth.

Minnau, er nas gallaf yma  
Hawlio dy gariad ail waith,  
Na phrofi mel dy gymdeithas  
Dros lawer blwyddyn faith,  
Caf yno o wedd dy wyneb  
Fwynhau drwy oesau di-ri,  
A'm gwynfyd i dragwyddoldeb  
Fydd bod yn y fan lle bo'ch di.





## TI DDYWEDAIST.

Anerchiad i Mary.

**T**I ddywedaist, fwynaf feinwen,  
 Dywedaist gynt â chalon lawen  
 Dy fod yn fy ngharu i  
 Gyda chariad dwfn a chry  
 Nad oedd arall is ffurfafen  
 I dy fynwes mor gu ;  
 Dwedaist wrthyf trwy olygon  
 Mai myfi oedd perl dy galon,  
 Ac mai angel dy freuddwydion  
 Oeddwn i.

'Roeddwn, Mary, yn dy gredu,  
 Beth allaswn lai na hynny  
 Tra'r oedd tân dy lygaid du  
 Arna'i 'n tw'nnu 'n llon a chu,  
 Gan argoeli wrth belydru  
 Dwymed oedd dy enaid di ;  
 Tra'r oedd serch fy mynwes innau  
 Yn cyfateb i'th un dithau,  
 Tra'r oedd ieuanc ein calonnau  
 Nwyfus ni ?

Ond, anwylyd, a ddywedi  
*Fy*th dy fod di yn fy ngharu,  
 Pan, fel tymhestl ganol dydd,  
 Y daw adfyd, ac y trydd  
 Oleu bywyd fel y fagddu ;  
 Pan y gwelwa'm grudd  
 Gan wedd angeu yn dynesu,  
 Aml gyfaill arna'i 'n cefnu  
 Mwy, ac is fy mron yn brathu  
 Ofid cudd ?

O anwylyd, a ddywedi  
Eto'th fod di yn fy ngharu,  
Eto fod dy serch yr un,  
Fyth mor anwyl, fel dy hun?  
Daw yn unig wŷr, ond credu  
Raid i mi, fy mun,  
Fod dy galon fel dy wyneb,  
Fel dy swynion, fel dy burdeb,  
Ac na ddetyd tragwyddoldeb  
Ein cytân.

1876.



## ER COF AM UN ANWYL.

GWEN anwyl! mor fyw yn fy meddwl bob dydd

Ei delw pan olaf ei gwelais,  
Y llygaid mwyn duon, y gwrid ar ei grudd,  
Y wefus a filwaith gusenais;

Y serch a belydrai drwy 'i gwenau i gyd,  
Nes gwneuthur ei chwmni yn Wynfa,  
A'r tyner ddifrifwch a wisgai ei phryd  
Wrth wneud ein hadduned diwedda.

Ein calon oedd ieuanc, ein gobaith oedd gryf,  
Ac er mor anhawdd oedd ymddatod,  
Ehedai ein meddwl yn ffyddiog a hyf  
At adeg yr ail ymgylfarfod;  
Mewn hyder y cawn adnewyddu 'r mwynhad,  
Anturiais ar fynwes yr eigion;  
Heb unwaith bryderu, er gadael fy ngwlad;  
Na byddai fy Ngwen imi 'n ffyddlon.

Ond pan ar draethellau yr Itali draw,  
Daeth imi y newydd gor-chwerw  
A lanwodd fy nghalon â gofid a braw,  
Fod Gwen, fod fy Ngwen, wedi marw;  
Nis gallwn am dymor lwyr gredu y ffaith,  
A mynych freuddwydiais 'r ol hynny  
Y cawn, 'n ol cyrhaeddyd i derfyn y daith,  
Drachefn weld fy mun, a'i mynwesu.


Aeth deuddeng mis heibio, dychwelais yn ol,  
Ond nid, nid i fynwes fy Ngweno,  
O na, 'r oedd fy anwyl yd ei hunan yng nghôl  
Yr Angau digariad yn huno;  
Ym mynwent Llanaber gorffwysai mewn hedd,  
Ac yno cyfeiriais fy nghamrau,


Mewn hiraeth, i weled man fechan ei bedd,  
A'i eneinio 'n hiraethlaw'n â'm dagrau.

'R oedd glaswellt yn tyfu yn siriol ei bryd,  
A blodau yn taenu dyhuddiant,  
Uwch y gwely o bridd lle gorwedda'i ynghyd  
Fy nghariad, fy ngobaith, fy mwyniant ;  
Ond nis gallai 'r bedd lyncu 'r meddwl am Gwen,  
A'i hadgof gorberaidd fydd bellach  
Nag unrhyw hyfrydwch na phleser is nen  
I'm calon yn llawer anwylach.

1875.

Un arall sydd yma, yn dweyd ei deimlad  
wedi colli Gwen. Bum yn crio mwy wrth ysgrif-  
enu hon nag wrth gyfansoddi bron ddim a wnes  
erioed. Yr oedd meddwl am M. wedi marw yn fy  
llethu.





V.—ODDICARTREF.

---

JOHN FREEMAN.

**B**LWYDDYN gyfa bron ar ben  
Er pan guddiwyd gwedd  
Freeman lawen-fryd dan len  
Oer y bedd!  
Ond, er huno'r corff o glai,  
Nid yw'r adgof fymryn llai  
Effro, ym mynwesau'r rhai  
Garai pan yma.

Hawdded gennyf gofio am  
 Dano yn ddeg oed,  
 Pan dros riniog ty ei fam  
 Gynta 'rioed  
 Y cychwynnodd ef i'w daith  
 Hyd yr enbyd eigion maith,  
 Gyda'i ruddiau bach yn llaith  
 Gan ei ddagrau.

Eto, dan ei fynwes wan,  
 Chwydda gobaith am  
 Allu cymorth yn y man  
 Weddwodod ei fam,  
 Wedi dychwel oddi draw  
 Allu doddi yn ei llaw  
 Ffrwyth ei chwys, trwy deg a gwlaw,  
 Am hanner blwyddyn.

Pa ymroddiad mor ddi-hun  
 Ag ymroddiad John?  
 Bywyd o anghofio'i hun  
 Ydoedd bywyd John;  
 Bychan oedd ei oleu'n wir,  
 Eto medrodd weld yn glir  
 Ym mha le gorweddaï pur  
 Lwybr dyledswydd.

Nid mewn proffes nac mewn cred  
 'Roedd ei grefydd ef,  
 Ond mewn cyflawni ei ddylêd  
 Gyda chalon gref;  
 Ac nid i ddweyd pa beth sydd iawn  
 'Roedd ei lywodraethol ddawn,  
 Ond i wneuthur hynny'n llawn  
 Ar bob adeg.

Fel y gweddai'n deg i ffydd  
 Ymarferol John,  
 Merthyr aeth ym more 'i ddydd  
 I'r ddyledswydd hon ;  
 Angau'n ddistaw ato ddaeth,  
 Pan yn brysur wrth ei waith,  
 Ac o ganol gorchwyl aeth  
 I'w orffwysfa.

Eto, er ei farw cyn  
 Dwy ar hugain oed,  
 Ni bu yn y byd er hyn  
 Lwyrach oes erioed ;  
 Megis pryddest ferr a thlos  
 Ar ymaberth, fu ei oes,  
 Megis seren yn y nos,  
 Nid i'w hun yn tw'nnu.

Cenedlaethau dirif sydd  
 Yn malurio dan  
 Gysegredig gysgod prudd  
 'Mynwent yr hen Lan ;  
 Ond nid oes o fewn i'w thir,  
 Yn tristhau ei heddwch hir  
 Galon ddewrach na mwy pur  
 Nag oedd calon Freeman.

Dyro, Dduw, i minnau nerth,  
 Yn fy nghyfran i  
 'N uwch i ddringo llwybrau serth  
 Dy ewyllys di ;  
 Bywyd a marwolaeth John  
 Fyddo'n wastad dan fy mron,  
 Nes diflannu'r ddaear hon  
 Fyth o'm golwg.

## CWYMPIAD Y DAIL.


**D**EILEN ar ol deilen wyw  
 I'r llawr sy'n pruddaidd gwympo,  
 Fel gobeithion oes ym myw  
 Fron ieuencyd wrth heneiddio,  
 Deilen ar ol deilen sydd  
 I'r llawr yn distaw gwympo,  
 Fel y disgyn dro i'r pridd  
 Yr henwr i huno.


Lawer boreu, gyda'r dydd,  
 O'm 'stafell wely,  
 Bum yn gwylio ysbryd cudd  
 Y gwanwyn yn ymdorri,  
 Drwy y blagur ar y coed,  
 Yn fy hiraeth am y Bermo,  
 Mewn breuddwydion pyntheg oed  
 Eto'n byw, i farw eto.

Lawer hamdden ganol dydd  
 Ym mis Mehefin,  
 Teimlais yn fy mynwes brudd  
 Ber-lesmair yr haf melyn ;  
 Yna 'roedd y dderwen hy  
 Dan ei deilwisg yn ymheulo,  
 Ar blodeuos, lu ar lu,  
 Y ddaear yn addurno.

Dyn ac anian ar bob llaw  
 Wleddent yn eu bywyd,  
 Oedd fel pe yn cadw draw  
 Ofn angau am ryw ennyd,  
 Gwir y gwywodd oerwynt Mai  
 Ddail a blodau heb eu cymar—  
 Tynged pob rhagoraf rai  
 Ydyw marw'n gynnar.







Yn Nyffryn Mawddach.  
"Gwastadedd a dyffryn a glyn."

[H. Owen.]

Eto mynnwn ambell ddydd  
 Ennyd fer anghofio  
 Gofid fu a gofid fydd,  
 Er ymdeimlo  
 Awen bywyd dan fy mron  
 Yng nghuriadau cry' fy nghalon,  
 Mewn ymhyder cryf a llon  
 I wynebu pob treialon.

Ond nid haf mohoni mwy—  
 Hydref bellach—  
 Gauaf bron—awelon trwy  
 Gangau noethion mwyach  
 Yn dyruddfan ; popeth cu,  
 Popeth siriol wedi trengu—  
 Dim ond beddau ar bob tu,  
 Beddau a galaru.

" Gwell yw deilen nag yw dyn  
 Eto," medd fy nghalon,  
 Pan i'w hanorffwystra'i hun  
 Yr ymrydd ar droion ;  
 " Bu i'r ddeilen goch yn awr,  
 Haf a gwanwyn ac ireidd-dra,  
 Ond i uchder llwch y llawr  
 Dim ond crinder gaua'!"

Marw'n faban,—marw'n hŷn—  
 Marw'n nwyf ieuencyd—  
 Marw'n 'nghanol blwyddi dyn—  
 Marw'n henwr myglyd !  
 'Does ond ugain mlwydd er pan  
 Anwyd fi, ac eto  
 Angau ar fy mynwes wan  
 Eisoes sydd yn pwyso.

Ai i hyn y dos i'r byd?  
Ai i ddim ond syllu  
Ar ei rawnwin teg eu pryd,  
Eto heb eu profi?  
Ai i yfed oll fy hun  
Gwpan trallod chwerw—  
Colli tad a mam a mun—  
Ie, ac i farw?

“Nage ddim” medd llais o'm blaen,  
Medd llais o'r twllwch,  
“Ond iti ddysgu ymha fan  
I chwilio am ddedwyddwch;  
I aredig, llyfnu, hau,  
Dy enaid gwyllt a garw,  
A'th gymhwysu i fwynhau  
Byth-dyfiant wedi marw.”



## Y FFORDD I BARADWYS.

**W**RTH ddrws ysbyty, un bore oerddu,  
'Roedd geneth mor anwyl ag a welsoch  
erioed,

Yn curo'n wannaidd, â'i llaw blentynaidd,  
A'i llaw fach deneu, seithmlwydd oed.

Ar ei gruddiau, yn lle rhosynau,  
'Roedd ol y dagrau ; ac yn ei phryd  
Lwydni anghenion a gofid calon,  
A hi ond ar drothwy bywyd a byd.

Y porthor agorodd, a hithau ofynnodd  
Mewn tristwch a phryder, y fechan ddi-nam,—  
"A wyddoch chwi, borthor, pa le mae fy mam?"

Mudsyllai'r dyn arni, gofidiai drosti,  
Cans 'roedd ef yn meddu teimladau tad,  
Ac a'i lygaid yn llenwi gan dagrau tosturi,  
Atebodd iddi,—

"Fy mechan fad,  
Mae'th fam wedi symud, byth mwy i ddychwelyd,  
Ac wedi cymeryd  
Y ffordd tua Pharadwys wlad."

Gofynnodd hi eto, cyn troi oddiwrtho,—  
"A fyddwch chwi gystal a dweyd i mi am  
Y ffordd sydd yn cymwys fynd i Baradwys  
Er mwyn im fynd yno at fy mam?"

Yntau mewn cyni pa beth i'w ddweyd wrthi,  
Nis gallai amgen na phwyntio â'i law  
Yng nghyfeiriad y ddwyrein-wlad,  
Tua chyfodiad yr heulwen draw.

Ymaith a'r fechan tua'r dwyrain,  
Ymaith ei hunan drwy'r oerni a'r gwlaw ;

A phan y digwydd i'r neb a'i cyferfydd,  
 Wrth weld ei hunigrwydd a byrder ei cham,  
 Ofyn ei siwrnai, ei hateb fyddai,—  
 " 'Rwy'n mynd i Baradwys i fyw at fy mam."

Ben bore wedyn cafwyd y plentyn  
 Megis mewn cynt-hun tawel a thlws,  
 Wedi rhynu ar risiau lleiandy,  
 A'i phen bach yn gorwedd ar riniog y drws ;  
 I fewn ar fynwes tyner fynaches  
 Aethpwyd a'r fechan i stafell glyd,  
 Dioŷgwyd am dani, gwnaed popeth i'w chynhesu,  
 A'i hadfyw ; ond ofer fu'r cwbl i gyd.

Eto, am eiliad agorodd ei llygad,  
 Gwasgodd eto ei gwefusau ynghyd,  
 Fel i ddweyd " Ffarwel " wrth ofid ac oerfel ;  
 Yna rhoddodd ei henaid lam,  
 Nid i ddiddymdra, nid i dywyllfa,  
 OND I BARADWYS,  
 Yno i orffwys yn mynwes ei mam.



## AR OL CYFEILLES.

Anadnabyddus i mi.\*

**G**R diffodd o'i bywyd cyn imi erioed  
 A'm llygad o gnawd ei gweled,  
 A thewi ohoni cyn imi erioed  
 A'm clust o gnawd ei chlywed ;  
 'R wyf wedi ei gweled, ac ar fy nghlyw  
 Ei llais mwyn a dwys fu'n disgyn  
 Ym myd fy nychmyg mae eto'n fyw,  
 Ac eto'n ddi-boen, megis plentyn.

Mae'r son am ei rhinwedd, a'i thyrer gu,  
 Am burdeb serchog ei dwyfron,  
 Am dlysni ei gwenau, a'i dau lygad du,  
 Wasgarent ar bopeth eu swynion,  
 A'i thyner ieuenctid, a thegwch ei gwedd,  
 A'i phrudd-der, a grym ei thrallodion,  
 A chwerwder y dagrau gysegrant ei bedd;  
 Wedi ennyn holl serch fy nghalon.

Nid unwaith na dwywaith y bum uwchben  
 Y llannerch amdoa'i gweddillion,  
 Nid unwaith na dwywaith y wylais uwchben  
 Tir angof y fath ragorion ;  
 Uwch angeu morgynnar, uwch aberth morgu,  
 Uwch siomiant y fath obeithion,  
 Uwch meddwl, er caru ohonof fi,  
 Na bum i ymhlith ei chyfeillion.

---

\* Merch i ffrind i mi yn y dref hon (Birmingham). Bu farw yn niwedd 1875, cyn i mi ddyfod yma ; ond yr wyf wedi clywed cymaint am ei rhagoriaethau, a'i thrallodion carwriaethol, ag i deimlo dyddordeb anghyffredin yn ei hanes, fel yr awgryma yr ychydig benillion hyn.

Ond—er curo'n ofer o'm calon yn awr  
At galon sy'n distaw falurio,  
Credu yr ydwyf, 'n ol gadael y llawr,  
Y telir fy serch imi eto ;  
Ymhlith y gwynfydau pur a dilyth  
Sy'n aros tuhwnt i'r wahanlen,  
Fy ngwynfyd i fyddai mwynhau dros byth  
O gwmmi yr hoff Ann Jane Owen.

1878.





## GOBEITHION IEUENCTYD YN MARW.

**T**RWM, trwm yw gweld gobeithion gwanwyn  
oes,

Fel egin cain, yn gwywo cyn addfedu,  
Prudd canfod llawer gweledigaeth dlos,  
Fel tarth y boreu, ymaith yn diflannu.

Nid dyfnach loesion mam goruwch y fan  
Lle'r huna yr anwylaf un a fagodd,  
Na chyni calon ieuanc, dyner, pan  
Mae awen oes, ar ddechreu nos, yn diffodd.

Mor deg yr ymddangosai lliwiau bywyd  
I'm llygaid pan yn fachgen deuddeg oed,  
Heb gwmwl oll i daflu cysgod adfyd  
Nac awel fain i sibrwd poen yn bod.

Bryd hyn ymrithiai llawer gwech olygfa  
Mwy swynol nag oedd Eden ardd, o'm blaen,  
'Roedd cyfoeth, dysg, enwogrwydd yn y pelldra,  
Ac edyn gobaith yn y gwynt ar daen.

Ond duodd amgylchiadau cyn bo hir,  
Amdowyd fi gan gymyl profedigaeth,  
Ac yn y twllwch hwnnw, er fy nghur,  
Diflannodd swynion hoff y weledigaeth.

Bu im gyfeilles yn fy nyddiau heulog,  
Un deg a hawddgar fel y wawrddydd lon,  
Un garwn hyd orphwylledd gan mor serchog  
Ei chalon ieuanc atai 'r adeg hon.

*Anorphenedig 1876.*

[*Gorffennwyd fel y canlyn yn unigedd  
cystudd yn Awstralia.*]

Cryf iawn cyfaredd y gobeithion hynny,  
A lechent yng nghynteddau'i mynwes glau ;

Ac O mor deg dyheu am oes i'w charu,  
I'w pharchu, i'w hamddiffyn, i'w boddhau.

Y Nef a wŷyr mor werthfawr i fy llygaid  
Oedd dim ond deigr yn ei llygad du,  
A minnau wn mor gyfyng ar fy enaid  
Oedd gweld nad oedd ei chalon man y bu.

Bu im rieni, anwyl iawn a thyner,  
Fuasent barchus unwaith yn y byd,  
Er nad yn esmwyth, nac â mwyniant lawer,  
Eto heb ddarostyngiad yn eu pryd.

Ond adfyd ddaeth, ac angeu, a phruddhad,  
Hyder a gobaith ymaith wedi cilio ;  
Cydnabod yn troi draw, a nerth fy nhad  
Cyn hanner cant mewn tristwch yn diffygio.

Fy nghalon innau wasgwyd hyd ei llethu  
Gan bwys y ddyrnod, a chan rym eu gwae,  
A'm mynwes ysid gan ymawydd gallu  
Ysgafnu'r baich oedd beunydd yn trymhau.

Gobeithiais lawer, a dymunais fwy,  
A phenderfynais, os fy llwyddai Duw,  
Y mynnwn yn y man eu gweled hwy  
Uwch angen a bys anfri eto'n byw.

Uwch angen a bys anfri aethant mwy,  
Ond nid trwy'm cymorth i. Y Gelyn Olat  
Wnaeth y gymwynas bennaf iddynt hwy ;  
A chyda'u llwch yr huna'm hawydd hoffaf.

Ac erbyn heddyw wele wedi trengu  
Fy ngobaith cyntaf pan yn blentyn iach,  
A'm gobaith olaf yma, fyth ond hynny—  
Ofer gobeithio byw ond ennyd bach.


Ond trenged. er mor gu, obeithion bywyd,  
 A gwaeded gan ei briw fy nghalon wan,  
 Ac aed fy nghorff i orwedd man yr hunn  
 'R anwylaf oll, dan ddwys briddellau'r llan.

Mae gobaith eto sydd mor ddwfn ei wraidd  
 A gwraidd fy hanfod i, a'i gangen i'r,  
 A'i ddeilen werdd, uwch awyr byd a draidd  
 Tuhwnt i'r ser, i awyr bywyd pur.

Mae eto fyd yn ol a lwyr gyflawna  
 Ein poenus ddiffyg yma, man y cawn  
 Fyth yfed per ddedwyddwch o gostrelau  
 Oedd yma fyth o chwerwder yn llawn.

Mesur ein diffyg yma a fydd yno  
 Fesur ein llawnder mwy. Ac O fwynhad,—  
 Cael Mary Ann dros byth i'm caru eto, ys y 1890  
 A gweld mewn gwynfyd mwy fy mam a'm tad.





## VI.—AR Y MOR.

### AT OWEN.

NGS DAN Y CYHYDEDD.

©'R diwedd—O mor hyfryd!—dyma'r nos,  
Ac oerni hafaidd wedi gwres y dydd ;  
A pher lonyddwch megis angof oes  
O wae,—a hamdden i fy nghalon brudd  
I geisio lleddfu ennyd ingoedd loes  
Fy nadwahaniad a'r anwyliaid sydd,  
Er dyfned yn fy nghof eu delwau hwy,  
Mor belled eisoes, ac mor bell, bell mwy !  
Owen, fy anwyl frawd, na fyddet yma,  
Yma yn awr er im' gael arllwys rhan  
I'th fynwes dyner di o'r dwys-deimladau  
Sy'n araf-sicr lethu'm calon, pan  
Nad oes i'w thost ymferwad mwy olyngfa—  
O fil mwy unig nag unigedd man,  
Unigrwydd bod, unigrwydd barn a nwydau,  
A diben bywyd—ac unigrwydd dagrau.  
Ond dyma'r ser, cyfeillion hoff yr unig,  
Yn dechreu syllu eto oddi.fry,

A threm mor ddifrif-ddisglaer, er mor ddiddig,  
 Megis pe byddent lygaid ysbryd eu  
 Y Cread, neu ysbrydion dwys-buredig  
 Rhai a brofasant unwaith, fel nyri  
 Yn awr, flinderau bywyd, ac sy'n dyfod  
 I wenu arnom gysur yn ein trallod.

Mae'r "Llathen Fair" yn twnnu uwch fy mhen,  
 A'r "Llong" ddi-hwyl, a myrddiwn eraill yma  
 Ar donnau'r aig, fel brynau Cymru Wen,—  
 Yn twnnu eto'n union fel yn nyddiau  
 Fy mebyd, pan oedd eto glir fy nen,—  
 Yn union fel pan ddysgwn i eu henwau  
 Oddiar wefusau'm tad ar lannau'r Maw,  
 Wrth ddod o'r capel adref yn ei law.

Mor deg eu llewyrch, ac mor drist i mi!  
 Yn eu goleuni gwelaf,—O mor glir!—  
 Agweddau hoff ond gwelw'r hyn *a fu*  
 Ar hyn *na fydd*, yn niniweidrwydd pur  
 Y baban heb ei eni, gyda'r llu  
 O fyfyrdodau ffyddlon a fu'n hir  
 Yn gweini arnynt, ag sydd eto'n gwarchod  
 Eu coffadwriaeth rhag rhwd oes a'i difrod.

Mor deg eu llewyrch, ond mor ddiwahaniaeth,  
 'Rwyf yn eu cofio'n gwenu ar fy nhad  
 Yn nawn ei nerth, ac arnaf finnau 'ngobaith  
 Bachgendod iach, a chariad a mwynhad—  
 Maent eto yn pelydru'r un mor odiaeth  
 Ar laswellt bedd fy nhad ac ar nacad  
 Y cwbl a obeithiais i ond bedd,—  
 Nerth, serch, erwogrwydd, meithder einioes,  
 hedd.

Fy mrawd, a wyt ti'n cofio'r aml noson  
 Is goleu'r ser y buom ni ein dau,  
 Ar ol o'r ysgol ddyfod adre'n gyson,  
 Yn rhoi tro ar yr wyn ac yn mwynhau  
 Cydrhyngom mor ddiniwed ein breuddwydion  
 Am wynfyd y dyfodol, (*nid ei wae*  
 Can's nid oedd eto fustl yn ein cwpan,  
 A chennym dad a mam ag aelwyd gyfan?)

O ddyddiau dedwydd! megis adar mwynion  
 Yn dyfod o wlad bell, a hardd a chu  
 Ydyw i'm henaid i eu per adgofion—  
 Ond tros ddiffaethwch erchyll ar bob tu  
 Yr hedant tuag ataf,—tros dor calon  
 Dirdynnol tad,—tros hiraeth dwfn a du  
 Fy mam, a'i hangau wedyn, a thros flwyddi  
 O boen i mi, a thristwch a thrueni!

Ond dyma'r clychau deg yn mynd, ymorol  
 Raid bellach am obennydd; cul yn wir  
 Fy ngwely, ond i mi nid anymunol,  
 Caf ynddo synfyfyrio'n hoff a hir  
 Am aml gyfaill cu, a châr mynwesol,  
 Ac am fy nheulu anwyl. ac am dir  
 Fy ngenedigaeth, nes o synfyfyrio,  
 Ymollwng drwy borth cwsg am danynt i  
 freuddwydio.

“Nos da,” fy mrawd, ergadael gwlad fy nhadau  
 Am ddieithr dir y deheu, ar fy ffo  
 Rhag tynged, ac yn fy chwim erlid angau,  
 Dy wyneb tirion eto yn fy ngho  
 Sydd fyth mor fyw, a'm henaid hyd ei seiliau  
 Sy'n wirach yn dy garu, fel mae'th fro  
 Yn trist bellhau, ac fel y trenga gobaith  
 O tan fy mron am gael dy weled eilwaith,

## AT FY NHEULU.

**I**N yr hwyr fy hunan yma  
 Pan yn syllu ar y lli,  
 Eirian gan belydrau 'r lleuad,  
 'Hedeg wna fy ysbryd i  
 Tua chartref ſell a dedwydd,  
 Tuag aelwyd glyd a glân,  
 Ac anwyliaid sydd yn eistedd  
 Yno'n grwn o gylch y tân.  
 Yno'n grwn, ond nid yn gyfan,  
 Yno, fel mwynhad y llawr,  
 Llon ysgwrs, ond gwag un gadair—  
 Cadair "Dewis Bob" yn awr—  
 Bwlch yn rhagor yn y teulu,  
 O anwyliaid, tristed wy,  
 Pan feddyliwyf na chyflenwir  
 Yma byth mohono mwy !  
 Gwesgir gan ei phoen fy nghalon,  
 Ac fel Marah'm dagrau pan  
 Gofwyf mai ymhlith dieithriaid  
 Mwyach oll y bydd fy rhan ;  
 Ac na chaiff fy llygaid mwyach  
 Edrych ar wynebau sy  
 'N fil mwy gwerthfawr i fy enaid  
 Nag yw einioes, er mor gu.  
 Ni chaf ddangos mwy fy nghariad  
 Tuag atoch, ond o draw—  
 Byth gusanu'r plant ond hynny,  
 Byth eu harwain yn fy llaw  
 I hel blodau hyd y meusydd  
 Tra'n gwrando ar eu sgwrs fach hwy—  
 Gwisgo am danynt hwy, a'u danfon  
 I'w gorweddfa, byth, byth mwy !

Pan ga Ellen bach "ffog" newydd,  
 Fe fydd yna un yn llai  
 I'w hedmygu ac i'w chanmol,  
 Ac o'i gwynfyd i swynhau ;  
 A'r tro nesaf y gall Gruffydd  
 Mewn siwt newydd weld ei hun,  
 Ni chaiff "Dewis Bob" roi ceiniog  
 Yn ei ddwrn, na'i alw'n ddyn.

A'm chwirydd bach amddifaid,  
 Er dyheu o'm calon am  
 Allu erddynt fyw i wneuthur  
 Olaf gais fy nhad a'm mam ;  
 Er eu caru'n fwy na phopeth,  
 Iddynt ni bydd "Bob" y mrawd"  
 Mwy ond enw, megis argraff  
 Carreg beddrod dyn tylawd.

Dibwys hyn yng ngolwg erei'l  
 Hwyrach, a phlentynaidd bron ;  
 Ond i mi, fy ngruddiau lleithion  
 Ddengys beth y funud hon—  
 Gan mor llwm y byd o gariad,  
 Ac o deimlad pur ac iach,  
 Colled anrhaethadwy colli  
 Cariad perffaith plentyn bach.



## AR Y MOR.

S FY Nuw,  
 Paham y rhaid im' fyw  
 Mor hir, a'm gwedd mor wyw,  
 Ar ol im' weld y llu  
 O gain obeithion cu  
 Fynwesid gennyf ddyddiau fu  
 Oll yn y bedd?

Beth yw mywyd? Dim ond gardd  
 O flodau wedi gwywo;  
 Dim ond siomiant breuddwyd hardd  
 A dedwydd, wedi deffro;  
 Twllwch nos pan fyddai ser  
 A lloer oll wedi pallu,—  
 Newydd win fu gynt yn bêr  
 Wedi bythol egru.

Fy anwyl, anwyl Lwyn,  
 Hyd dy lethrau  
 Wrth fugeilio'r wyn  
 Lawer boreu,  
 Ar ymdorri bu fy mron  
 Gan ei gwynfyd—  
 Gwynfyd diniweidrwydd llon  
 Plentyn mewn breuddwyd.


Eto'n ddieithr i dristâd  
 Amgylchiadau dyrys;  
 Eto'n nghysgod mam a thad  
 Tyner a gofalus,  
 Eto cerid fi gan un  
 Megys ag ei carwn,  
 Eto pang afiechyd blin  
 Ni phrofaswn.


Iechyd, cariad, tad a mam,  
 Gwenau ffawd a chalon  
 Anghyffredin yn ei llam,—  
 Pa ryfedd droion  
 Iddi berlewygu gan  
 Draswyn y dyfodol,  
 Ac yr ymddanghosai'm rhan  
 Uwch daearol ?

Un ar bymtheg oed a ddaeth,  
 Ond ym mynwes  
 Gu fy nhad y glynai saeth  
 Angau eisoes ;  
 Mwy nad all'sai' galon ddwyn  
 A fuasai cefnu  
 Ar ddyfodol hoff ei Lwyn  
 Am dylodi.

Deunaw oed a ddaeth, ond nid  
 A bri deunawfed flwyddyn,  
 Gwyw fy ngruddiau a di-wrid  
 Gan ymofid dygyn ;  
 Is y glaswellt yn y llan  
 Y gorweddai'm rhia nt ;  
 Wedi dioddef yn eu rhan,  
 O gymaint !

Ugain ddaeth, a chydag ef  
 Drallod, chwerwach trallod,—  
 Ugain aeth, a chydag ef  
 Wrthrych hoffaf hanfod ;  
 Mary Ann, mwy er bod un  
 Arall yn ei meddu,  
 Nid pan baid anadl ei hun  
 Y peidiaf fi a'i charu.





GLAN Y MÔR.

"Y Môr, mor ddynol newidiol,  
Ac eto mor ddwyfol yr un."

Blwyddyn arall lesg ei throed  
 Bellach dyma finnau,  
 Wedi cyrraedd llawnder oed  
 A — llawnder gwaeau,  
 Ir fy oes, ond angau sydd  
 Eisoes wedi crino  
 'M nerth, ac O! gerllaw mae'r dydd  
 Pan raid syrthio.


Iechyd, cariad, mam, a thad,  
 Gwenau ffawd—oll wedi,  
 Wedi'm gadael i dristad  
 Unigrwydd mewn trueni ;  
 Heddyw'n marchog brig y don  
 Ar fy ffo rhag angau,  
 Ond—yn ofer—is fy mron  
 Brath ddyfnach ei bicellau.

Ond paham byw? A paham ffoi,  
 Mewn byd mor ddifwyniant ;  
 Paham peidio'n awr ymroi  
 Gyda'r llifeiriant ?  
 A fuasai ddim yn well  
 Aros gartre i huno,  
 'Lle mynd i chwilio mewn gwlad bell  
 Am fan i orffwyso?

Na fai,—O fy nwy chwaer fach  
 Eto heb eu magu,  
 Fy nymuniad pan yn iach  
 Fyddai gallu,  
 Cyn pen hir eu gweld,—y ddwy  
 Anwyl amddifad,  
 Wedi eu dwyn i fyny trwy  
 Fy nghariad.

Ac yn awr pan nad oes mwy  
Obaith y caf syllu  
Ar forwyndod teg y ddwy  
Yn addfedu,  
Dyfnach, purach, cryfach yw  
Fy nymuno  
Am gael eto dymor fyw  
Pe ond i'w cofio.

*Mawrth 30, 1879.*





## VII.—SU MOR TRAGWYDDOLDEB.

### O'R DYFNDER.

CUL, cul, a chauad yw y glyn,  
O'm hol, yn dyrchu tua'r nen,  
Yr hyn a fum; o'm blaen, yr hyn  
A fyddaf gan or-drwchus len  
Y niwl oddiar yr afon ddu,  
Yn oll guddiedig. Uwch fy mhen  
Cymylau yn gorchuddio llu  
Y nefoedd o fy ngolwg.

Cul, cul, ac anial yw y glyn,  
Ynddo nid oes na briall mwyn  
Na "llygad dydd" a'i siriol swyn.  
Na chân yr un fronfraith yn y llwyn  
O yw gerllaw, ond oernad brudd  
Aderyn corff sy'n tarfu swyn  
Distawrwydd, ac yn gwynnu'm grudd  
A braw anesboniadwy.

O Mary, ti, addfwynaf fun,  
Pan oedd bodolaeth imi'n llawn  
Melusion, oedd y bennaf un  
Ohonynt foreu a phrydnawn;  
A than fantelli'r hwyr, tydi,  
Dy degwch, a'th hawddgarwch iawn  
A lanwai'm calon nwydus i  
A gwynfyd anrhaethadwy.

Ac eto pan, â'i fysedd main,  
 Y mae afiechyd tan fy mron  
 Yn dwyn o'r gwraidd y blodau cain  
 Fu ynddi'n tyfu gynt yn llon,—  
 Gobeithion, dymuniadau oes,  
 A gwŷn mwynhad y ddaear hon,  
 Ac O mor chwerw-lym y loes  
 O'u gweld yn gwywo,—

Bryd hyn fy nghariad atat ti  
 Ym myw fy mŷnwes sy'n dyfnhau,  
 Yn lledu'n fwy ei wreiddiau fil ;  
 A thranc serchiadau eraill brau  
 Nid yw ond yn eangu grym  
 Ei afael ef, ac yn gwyrddhau  
 Ei ddail, fel nas gall anadl llym  
 Afiechyd byth ei ddeifio.

Ond, ond, mae'r ddifrif awr gerllaw  
 Pan raid ymdaro'n nerth y donn,  
 A cheisio glan yr ochr draw,—  
 Dy serch, fy Mary, dan fy mron ;  
 Dy serch mor bur drwy bob tristhad,  
 Er broched lle'r Iorddonen hon  
 Hyderaf eto gyrraedd gwlad  
 Lle nad oes darfodedig.

Gall, gall, nas dichon imi ddwyn  
 Trwy'r angeu r oll sy'n awr yn rhan  
 O'm bod, ac y difwynai swyn  
 Fy hoffaf bethau yn y man ;  
 Ond serch fy enaid atat ti  
 Sydd burach, gryfach ar y lan,  
 Ac ni bydd Nef ei hun i mi  
 Ond man i'th fwyfwy gara.



Su Mor Tragwyddoldeb. 109

Cul, cul, ac unig yw y glyn,  
Nid wyf ond clywed oddi draw  
Hoff ddadwrdd bywyd erbyn hyn,  
A rhu'r Iorddonen ddofn gerllaw ;  
Tra'r geulan olaf dan fy nhraed  
Yn araf lithro, er fy mraw,  
I'r tonnau geirw sy'n ddibaid  
Yn ceulo dani.

Cul, cul, ddiobaith yw y glyn,—  
Byth nid oes modd ei ddringo'n ol  
I'r iechyd a'r dedwyddwch fu'n  
Fy ngwarchod unwaith yn eu côl,  
Na syfyd cam o'r man yr wy'  
Yn hiraeth-syllu ar fy ol  
Am ennyd cyn anturio trwy  
Y dyfroedd oerion.

Ond er mor gul a llwm y glyn,  
Ae er mor dywell yw y nen,  
Ac er mor serth y bryniau sy'n  
Ymddyrcu'n frigog uwch fy mhen  
I'm cau rhag bywyd ; eto mae  
Un seren anwyl, ddisglaer, wen  
O'r entrych gwywol, ar fy ngwae  
Yn tyner-ddwys dywynnu.

## MYFYRDOD MEWN UNIGEDD.

**Y**MA'N syllu ar y marwor  
 Poeth yn tw'llu ar yr aelwyd ;  
 Yma f'hunan yn f'ystafell  
 Wag yn gwrandaw ar yr awel  
 Oer yn cwynfan wrth fynd heibio ;  
 Yma megys yn cymuno  
 Ag ysbrydion y gorffennol,  
 A chysgodion y dyfodol,  
 Tra fy mynwes ar ymdorri  
 Gan ddirwasgiad ei theimpladau,  
 Gan ei serch a chwilia'n ofer  
 Am ei gymar mewn bron arall—  
 Tra mae gorthrwm fy modolaeth  
 Arna'i 'n pwysio megis hunllef,  
 Ac yn gwasgu'm calon fwy-fwy  
 I'w hymddrylliad— O f'anwylyd,  
 Mae dy wedd fel gwyneb angel  
 Yn ymrithio ger fy llygaid,  
 Ac yn gwneyd i'm calon lamu  
 Eto unwaith, fel yn nyddiau  
 Ein plentyndod. O dy lygaid  
 Du a disglauer, disgyn arnaf  
 Megis awen dy brydferthwch,  
 Megis traswyn dy hawddgarwch,  
 Megis adladd y breuddwydion  
 A'r gobeithion a ymwëent  
 Gynt oddeutu twf dy swynion.  
 Mary, Mary, a wybuost  
 Ti erioed mor ddwfn fy nghariad  
 Tuag atat ? Ac mor werthfawr  
 I fy enaid am flynyddau  
 A fuasai dim ond hanner  
 Gwên oddiar dy wyneb anwyl ?

## Su Mor Tragwyddoldeb. 111

A wybuost ti fy ingoedd  
Pan yn byw yn nhir anobaith,  
Pan yn dlawd gan ddiffyg arian  
Pan yn dlotach gan dy golli—  
Er dy garu fyth yn ddyfnach,  
Er dyheu am farw trosot  
Neu am fyw ond i'th ddedwyddwch?  
Nid oedd tlodi imi'n erchyll,  
Nid oedd dwfn fy narostyngiad,  
Ond fel i'm pellhau oddiwrthyt  
Ti, fy eilun a'm trueni.  
Anwylyd hoff, a wnei di gredu,  
Cyn i'm calon beidio a churo,  
Cyn i'w brau linyddau dorri,  
Ac i'w sylwedd fynd i bydru  
Is oer gwrlid y dywarchen,—  
Wnei di gredu ddarfod iddi  
Yn ei llawnder nerth dy garu  
Uwch pob haeddiant ond y nefoedd,  
A phob cariad ond a siomer?  
Ac mai atat ti yn unig,  
Ti uwchlaw pob peth daearol,  
Atat ti uwchlaw ei Chrewr  
Fyth y mynnai'm calon guro?  
Pan ei gwaed yn araf rewi  
Is edrychiad oerllyd angau,  
Cred, O cred! neu ni bydd esmwyth  
F'enaid noeth ym myd ysbrydion.  
O'm gobeithion oll a siomwyd!  
O'm cynlluniau a ddyryswyd!  
O fy nhalent a ddifuddiwyd!  
O fy mywyd a ddifethwyd!  
Mor ddi-amcan, mor ddi-ystyr,  
Mor amherffraith, mor anwyfol!  
Mor ddilawn o bob daioni!

Beth a ddygaf yn fy nwyllaw  
 Pan o flaen fy Marnwr cyfiawn  
 Y daw angau i fy ngwysio—  
 Beth ond mil o wag fwriadau,  
 Ac o ddifyg cyflawniadau,  
 Ac o garu megis gwallgof,  
 Un o bryfaid gwael y ddaear  
 Am flynyddau,—ac yn ofer.  
 O fy Nuw, fy nhad, fy nghyfaill,  
 Ti sy'n gwybod holl ddirgelion  
 Calon dyn a'i fawr ddiffygion,  
 Maddeu i mi am anghofio  
 Serch dy ofal am dy blentyn  
 Drwg anufudd, ac am geisio  
 Gosod yn dy deml sanctaidd  
 Eilun pridd ; a derbyn gennyf  
 Megis aberth cymeradwy  
 Ar Dy allor, galon ysig  
 A chystuddiol, sydd yn dioddef  
 Beunydd boenau siomedigaeth  
 Fil mwy chwerw na marwolaeth.  
 Derbyn unig gariad einioes  
 Wedi ei groesi, derbyn angerdd  
 Fy ymroddiad i un arall  
 Fu i mi yn lle dwyfoldeb,  
 Megis pe i Ti y'i telid ;  
 A chyfrifa, Dduw, yn ddigon  
 Cerydd arnaf orfod cefnu  
 Ar bob gobaith am ei meddu,  
 Ar anwyliaid gwlad fy nhadau,  
 Ar gysuron iechyd hoenus,  
 A mynd dros y môr i chwilio  
 Llannerch bedd ymhlith estroniaid—  
 O fy Nuw, 'RWYF WEDI DIODDEF!—  
 Dyro bellach im dangnefedd! *Medi, 1879.*

# CYFRES Y FÏL.

---

Y mae y cyfrolau canlynol wedi eu cyhoeddi.  
Y mae ereill i ddilyn.

*Cyfrol 1901.*

DAFYDD AP GWILYM.

---

*Cyfrolau 1902.*

GORONWY OWEN. Cyf. I.

CEIRIOG.

GORONWY OWEN. Cyf. II.

HUW MORUS.

---

*Cyfrolau 1903.*

BEIRDD Y BERWYN.

AP VYCHAN.

ISLWYN.

---

*Cyfrolau 1904.*

OWEN GRUFFYDD, LLANGYSTUMDWY.

Ereill i ddilyn.

---

Pris 1/6 yr un; 1/1 $\frac{1}{2}$  i danysgritwyr.

I'w cael oddiwrth R. E. Jones a'i Frodyr, Conwy; neu oddiwrth Ab Owen, Llanuwchllyn.

Anfoner enwau tanysgrifwyr i O. M. Edwards, Lincoln College, Oxford. Gellir cael yr olgyfrolau, neu ddechreu gyda'r gyfrol hon.

# Cyfrolau Defnyddiol.

---

—

Yr wyf, er ys amryw flynyddoedd, yn paratoi pum llyfr o gynhorthwy i'r efrdydd a'r llenor Cymreig. Nid ydynt yn rhan o Gyfres y Fil, ond gwerthir hwy i'r Fil am yr un bris a'u cyfrolau hwy. Y maen't yn unfurf â chyfrolau'r Fil.

—

*Yn y Wasg.*

## I. GEIRIADUR CYMRAEG.

Seiliedig ar waith y Dr. John Davies o Fallwyd a Thomas Jones.

Amcan y gwaith hwn yw rhoddi cymorth parod a hylaw i rai ddarllen a deall llenyddiaeth Gymreig. Ceir ynddo hen eiriau na cheir yn y geiriaduron cyffredin. Tybir mai ar gynllun y geiriadur hwn y ceir, ryw dro, Eiriadur Cymraeg perffaith.

—

*I ddilyn ar fyrder.*

## II. GEIRIADUR BYWGRAFFYDDOL.

Yn cynnwys erthygl ferr gynhwysfawr ar bob Cymro enwog.

## III. HANES CYMRU.

Yn cynnwys cipolwg clir ar rediad hanes Cymru.

## IV. HANES LLENYDDIAETH CYMRU.

Yn cynnwys cipolwg clir ar ddadblygiad meddwl Cymru.

## V. ATLAS CYMRU.

Cyfról fechan ddestlus o fapiau a phlantiau i esbonio hanes Cymru.

## VI. DAEAREG A DAEARYDDIAETH CYMRU.


—

Pris 1/6 yr un.

I'w cael, pan yn barod, oddiwrth R. E. Jones a'i Frodyr, Conwy.

ARFON/DWYFOR

**ARFON/DWYFOR**





RECEIVED  
MAY 10 1952

